# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: O BELL

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Ionawr 2022

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(14.00) (Tudalennau 1 - 30)

## 2 Sesiwn Dystiolaeth (Panel 1) P-06-1212 Cyfraith Mark Allen - rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru

(14.00 - 14.40) (Tudalennau 31 - 34)

Chris Cousens, RNLI a Chadeirydd Diogelwch Dŵr Cymru

Bleddyn Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac
Aelod o Grŵp Llywio Diogelwch Dŵr Cymru

## Egwyl fer

## 3 Sesiwn Dystiolaeth (Panel 2) P-06-1212 Cyfraith Mark Allen - rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru

(14.50 - 15.20)

Nikki Kemmery, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch,
Dŵr Cymru

Paula Steer, Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant a Gwasanaethau Ystadau, United Utilities

Dominic Robinson, Arweinydd Profiad Ymwelwyr, Severn Trent a Hafren Dyfrdwy

## 4 Deisebau newydd

(15.20 - 15.45)

4.1 P-06-1220 Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod

(Tudalennau 35 - 41)

4.2 P-06-1222 Gwahardd barbeciws untro o'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau yng Nghymru!

(Tudalennau 42 - 46)

4.3 P-06-1204 Amddiffynnwch bobl Cymru - cymerwch gamau brys ar yr argyfwng tai nawr

(Tudalennau 47 - 56)

4.4 P-06-1225 Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru orfod cynnal a chyhoeddi arolygon bywyd gwyllt blynyddol cyn cwympo coetir

(Tudalennau 57 - 65)

4.5 P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau haf 2021

(Tudalennau 66 - 75)

4.6 P-06-1229 Cynyddu'r cyllid ar gyfer Clinigau Hunaniaeth Rywedd yng Nghymru

(Tudalennau 76 - 80)

4.7 P-06-1230 Dylid gosod diffibriliwr ym mhob ysgol yng Nghymru i'r cyhoedd gael mynediad ato

(Tudalennau 81 - 86)

## 5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

5.1 P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati) - Y wybodaeth ddiweddaraf yn sgil gwaith ymchwil newydd

(Tudalennau 87 - 88)

5.2 P-06-1200 Dylid gwneud rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon

(Tudalennau 89 - 94)

5.3 P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol

(Tudalennau 95 - 98)

5.4 P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru

(Tudalennau 99 - 103)

5.5 P-06-1205 Buddsoddwch mewn amddiffynfeydd llifogydd ar y Tywi yng Nghaerfyrddin gan gynnwys ardal y Cei

(Tudalennau 104 - 106)

## 6 Papur i'w nodi - P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG EI DYMCHWEL

(Tudalen 107)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 8 y cyfarfod.

(15.45)

## 8 Trafod y dystiolaeth - P-06-1212 Cyfraith Mark Allen - rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru

(15.45 - 16.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1212 Deddf Mark Allen

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 29 November 2021

**Cyfeirnod:** SR21/1044-12

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1212

**Teitl y ddeiseb:** Deddf Mark Allen – rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Fe foddodd Mark Allen, oedd yn 18 oed, ar ôl neidio i mewn i gronfa rewllyd ar ddiwrnod poeth ym mis Mehefin 2018. Ym mis Mai 2019, fe fuom yn gwylio 3 cortyn taflu'n cael eu gosod wrth y fan lle buodd farw. Gellid bod wedi achub Mark pe byddent yno'n barod.

Rydym ni, teulu a ffrindiau Mark, o'r farn y dylai fod yn gyfraith gwlad i osod cortynnau taflu fel y rheini a osodwyd lle bu farw Mark, mewn lleoedd dynodedig o amgylch pob cronfa ddŵr, llyn, camlas ac ati. Wrth siarad â phobl sy'n gweithio ym maes diogelwch dŵr, e.e. gwasanaethau tân ac ati, mae cortynnau o'r fath wedi achub llawer o fywydau. Rydym ni eisiau achub bywydau ac arbed pobl rhag gorfod dioddef y torcalon a'r trasiedi o golli rhywun y maen nhw'n garu yn boddi.

Helpwch ni i wneud gwahaniaeth cadarnhaol er cof am Mark.

Diolch i chi, teulu a ffrindiau Mark

# 1. Cefndir

Mae tua 400 o bobl yn boddi o amgylch y DU bob blwyddyn, ac mae 200 arall yn cyflawni hunanladdiad. I bobl rhwng 5 a 24 oed, boddi yw'r ail brif beth sy'n peri marwolaeth ddamweiniol.

Fe gafodd Diogelwch Dŵr Cymru ei sefydlu yn 2017 ac mae'n grŵp o 24 o gyrff cysylltiedig sy'n gweithio ar ddiogelwch dŵr, ac atal boddi yng Nghymru. Fe lansiodd Strategaeth Atal Boddi Cymru ym mis Rhagfyr 2020, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod 45 o bobl, ar gyfartaledd, yn colli eu bywydau trwy foddi bob blwyddyn yng Nghymru. Fe wnaeth Lesley Griffiths AS – Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd – nodi y bydd y strategaeth yn:

> …rhoi amlinelliad clir o sut byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner i ymgysylltu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth o beryglon dŵr i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Fel perchennog-weithredwr cronfeydd dŵr yng Nghymru, mae Dŵr Cymru yn darparu gwybodaeth am **effeithiau angheuol posibl nofio heb awdurdod yn ei gronfeydd dŵr.**Mae'n tynnu sylw at beryglon, gyda'r canlynol yn eu plith:

- Mae **strwythurau concrit neu fetel sy'n gudd** o dan wyneb y dŵr yn gallu dechrau gweithio heb rybudd.
- Mae hyd yn oed y nofwyr cryfaf yn gallu mynd i drafferthion mawr yn y **cerrynt iasoer**.

'Sioc dŵr oer' yw'r effaith ar y corff o fynd i mewn i ddŵr 15°C ac is – gall **arwain at foddi**.

## Defnyddio cortynnau taflu

Dyfais achub yw 'cortyn taflu' neu 'fag taflu'. Fel arfer, rhaff yw hon wedi'i gosod yn llac mewn bag a fydd yn ei rhyddhau wrth ei daflu. Yn ôl Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, i rywun sydd wedi syrthio i'r dŵr **mae'r cortynnau hyn yn achubiaeth**.

## Deiseb wedi'i hystyried gan Senedd y DU

Fe gafodd deiseb Cyfraith Mark Allen ei hystyried a'i chau ar 29 Medi 2021. Yn ei hymateb, amlygodd Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

> *...where open access to water is encouraged for leisure purposes controls might, depending on the circumstances, include the provision of throwlines or other rescue devices, as part of a range of measures*

### Mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer mynediad ehangach i gefn gwlad at ddibenion hamdden. Mae'n nodi fel a ganlyn:

> Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawliau cyhoeddus statudol cyffredinol mewn perthynas â mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden yng Nghymru, ac ychydig iawn o gyfraith gyffredin.

Mae wedi ffurfio Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad i edrych yn fanwl ar nifer o'r cynigion Mynediad o fewn Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy.

Mae'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru, yr Is-grŵp Mynediad at Ddŵr wedi'i sefydlu i roi blaenoriaeth i faterion dŵr mewndirol a thrin mynediad at ddŵr ar wahân.

Gofynnwyd i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru adrodd ar ganlyniadau ei drafodaethau ar lefel is-grŵp, a'r casgliadau a'r argymhellion cysylltiedig erbyn mis Mawrth 2021.

Ni ellir dod o hyd i'r adroddiad hwn yn gyhoeddus, fodd bynnag mae crynodeb cyfarfod y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru o 29 Mehefin yn nodi bod yr adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu gyda'r Gweinidog ar hyn o bryd. At hynny, nodir fod 'cangen ddŵr' Llywodraeth Cymru'n gweithio i gwmpasu'r bwriad i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru at ddibenion hamdden.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru'n tynnu sylw at yr angen i ddwyn diogelwch i ystyriaeth wrth "geisio gwireddu'r buddiannau y gall ein hadnoddau dŵr eu cynnig i greu swyddi a thwf gwyrdd ym maes twristiaeth a hamdden". At hynny, mae'n tynnu sylw at y risg bosibl o gronfeydd dŵr yng Nghymru, a'r angen am reolaeth effeithiol gan nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n:

> ...gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, perchnogion cronfeydd dŵr eraill ac ymatebwyr i sicrhau bod trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Byddwn yn rhoi deddfwriaeth ychwanegol ar waith i sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr yn y dyfodol yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at waith sy'n cael ei wneud gan ei phartneriaid cyflenwi, gan gynnwys ymgyrchoedd diogelwch cronfeydd dŵr cwmnïau dŵr, a'r Strategaeth Atal Boddi gan Ddiogelwch Dŵr Cymru (y manylir yn eu cylch uchod).

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Yn ystod y Trydydd Cynulliad, ystyriwyd y mater o fynediad at ddŵr mewndirol gan y Pwyllgor Deisebau ar y pryd, a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd.

Fe wnaeth Pwyllgor Deisebau'r Senedd flaenorol ystyried P-05-868 – Diogelwch Dŵr/Atal Boddi ac effeithiau Sioc Dŵr Oer i'w haddysgu ym mhob Ysgol yng Nghymru

Nid yw'n ymddangos bod y mater penodol o ran darparu cortynnau taflu wedi'i ystyried yn y Senedd cyn y ddeiseb hon.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 4.1

# **P-06-1220** Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Menywod, Addysg ac Ymwybyddiaeth

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1251-4

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1220

**Teitl y ddeiseb:** Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod

**Geiriad y ddeiseb:**

Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd sy'n ymwneud â materion iechyd menywod, yn ogystal ag ymchwil, addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Mae'r materion hyn yn cynnwys:

Materion amenedigol, anafiadau yn ystod genedigaeth, cwymp y groth, ffibroidau, endometriosau, materion cysylltiedig â menopos, materion cysylltiedig â mislif, a'r effaith ar iechyd meddwl sy'n cyd-fynd â'r materion hyn.

Meysydd a allai elwa (enghreifftiau, ymhlith eraill): Bydwreigiaeth, Meddygon Teulu, Gynaecoleg, Ffisiotherapi Iechyd Menywod, Gwasanaethau iechyd meddwl (e.e. cwnsela).



www.senedd.cymru

# 1. Y cefndir

Yn 2018, cynhaliodd Chwarae Teg adolygiad o gydraddoldeb rhwng y rhywiau, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y pryd. O ran **iechyd menywod**, mae'r Map trywydd ar gyfer Cymru, a luniwyd fel rhan o'r adolygiad yn nodi:

> Er bod menywod yn byw'n hirach, wynebant fwy o faterion iechyd drwy gydol eu hoes ac yn aml ceir diffyg dealltwriaeth am y materion iechyd penodol sy'n digwydd i fenywod a merched. Mater yw hwn sy'n effeithio ar fenywod ym mhob cyfnod o'u hoes a gall effeithio'n benodol ar eu gallu i gymryd rhan yn llawn mewn addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth, ac effeithio'n negyddol ar eu lles cyffredinol.

Canfu'r adolygiad bod mynediad at wasanaethau arbenigol fel bydwreigiaeth, erthyliad, camesgoriad, a gwasanaethau gynaecolegol eraill yn bryder sylweddol ymhlith rhanddeiliaid.

Ar ôl yr adolygiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau traws-bortffolio ym mis Mawrth 2020. Roedd hwn yn cynnwys gweithredoedd yn ymwneud â:

- urddas mislif;
- clinigau colli babi yn ystod beichiogrwydd;
- i ba raddau y mae byrddau iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau NICE ar gamesgor a beichiogrwydd ectopig;
- gweithredu'r weledigaeth bum mlynedd ar gyfer gofal mamolaeth yng Nghymru 2019-2024.

Amlygodd nifer o'r ymatebwyr i ymgynghoriad diweddar y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd y diffyg cynllun iechyd penodol yng Nghymru ar gyfer 'menywod a merched'. Galwodd rhanddeiliaid am gefnogaeth y Pwyllgor i roi blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd menywod ar agenda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ffocws ar fynediad at ofal iechyd a chanlyniadau iechyd, a chymryd agwedd cwrs bywyd at iechyd menywod sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ffocws traddodiadol ar ofal mamolaeth. Ymhlith y materion penodol a amlygwyd mae endometriosis, y menopos, iechyd meddwl amenedigol, atal cenhedlu, erthyliad, cefnogaeth o ran camesgoriad, ffrwythlondeb a sgrinio ceg y groth.

### Beth sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU

Yr Alban yw'r wlad gyntaf yn y DU i gael Cynllun Iechyd Menywod. Nod y Cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, yw codi ymwybyddiaeth o iechyd menywod, gwella mynediad at ofal iechyd, a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd i fenywod a genethod, ar gyfer cyflyrau rhyw-benodol ac o ran iechyd cyffredinol menywod.

Yn gynharach eleni, bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Menywod ar gyfer Lloegr. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

## 2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Deisebau (16 Tachwedd 2021) yn nodi:

> Mae gwella gwasanaethau iechyd i fenywod wedi parhau'n flaenoriaeth i Lywodraethau olynol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau iechyd yn cynnig cyngor a gofal i ferched a menywod yn ystod eu bywydau ac yn cyflawni model o ofal sy'n darparu cymorth i alluogi menywod i aros yn iach drwy gydol eu bywydau.

Mae'n tynnu sylw at rôl y Grŵp Gweithredu Iechyd Menywod (WHIG) a gyfarwyddwyd gan weinidogion i fynd i'r afael â materion iechyd menywod. Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu Iechyd Menywod yn wreiddiol ym mis Mawrth 2018 i ystyried adroddiad ar ddefnyddio tâp a rhwyll synthetig ar gyfer anymataliaeth straen wrinol a phrolaps organau'r pelfis. Yn dilyn hynny, ehangwyd cylch gwaith y Grŵp i gynnwys ystyried dau adroddiad arall, sef adroddiadau ar endometriosis ac anymataliaeth ysgarthol. Dywed Llywodraeth Cymru:

> Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1 miliwn y flwyddyn i GGIM. Mae'r arian hwn wedi cael ei ddefnyddio i gyllido rheolwr y rhaglen a sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr iechyd y pelfis a llesiant ym mhob bwrdd iechyd. Yn fwy diweddar, mae wedi caniatáu i nyrsys endometriosis arbenigol gael eu recriwtio ym mhob bwrdd iechyd yn ogystal ag ystod o weithgareddau eraill

Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ei gwaith o ran urddas mislif, y menopos, ac iechyd meddwl amenedigol.

Mae'n nodi effaith y pandemig COVID-19 ar ddarpariaeth gynaecoleg (ac yn gyffredinol ar draws y GIG), ac yn disgrifio 'tarfu mawr' ar wasanaethau ac amseroedd aros sylweddol hwy i lawer o fenywod. Mae'n cyfeirio at ei chynllun adfer ar gyfer y GIG yng Nghymru (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021), ac mae'n nodi, er na chyfeirir yn benodol at wasanaethau gynaecolegol, mae disgwyl y bydd yr holl wasanaethau iechyd yn adlewyrchu'r newidiadau a nodir yn y cynllun.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1220
Ein cyf/Our ref EM/13448/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

16 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch deiseb i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i Wasanaethau Iechyd, Addysg ac Ymwybyddiaeth Menywod. Rwy'n ymateb fel Gweinidog sydd â phortffolio sy'n cynnwys Iechyd Menywod.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob bwrdd iechyd ddarparu ystod lawn o wasanaethau i fenywod yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae'r GIG yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau rhedeg gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddatblygu cynlluniau cadarn i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i gynnal asesiad er mwyn sicrhau bod y ffordd y cyflenwir gwasanaethau a darpariaeth yn diwallu anghenion eu poblogaethau sy'n gorfod cynnwys anghenion menywod a merched.

Mae gwella gwasanaethau iechyd i fenywod wedi parhau'n flaenoriaeth i Lywodraethau olynol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau iechyd yn cynnig cyngor a gofal i ferched a menywod yn ystod eu bywydau ac yn cyflawni model o ofal sy'n darparu cymorth i alluogi menywod i aros yn iach drwy gydol eu bywydau.

Cyhoeddwyd Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol ym mis Gorffennaf 2019, gan nodi bod '…beichiogrwydd a genedigaeth yn ddigwyddiadau sy'n newid bywyd menyw a'i theulu, mae'n ddigwyddiad pwysig y mae pobl yn disgwyl yn eiddgar amdano. Mae staff mamolaeth yn cael cyfle i gefnogi menyw a'i theulu drwy'r newid hwn gan sicrhau gofal diogel, clinigol effeithiol yn ogystal â phrofiad personol a chadarnhaol'.

Mae ffrydiau gwaith wedi cael eu sefydlu o fewn y rhwydwaith mamolaeth a gofal newyddenedigol i sicrhau y cyflawnir y weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu ac yn mynd i'r afael ag anghenion unigol. Gwneir hyn gan ganolbwyntio'n arbennig ar fydwraig benodol yn cynllunio gofal mewn partneriaeth â'r fenyw feichiog a'i theulu. Mae addysg, cymorth ac atgyfeiriad i wasanaethau arbenigol yn ganolog i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'n hymateb i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd menywod wedi cael ei ddarparu drwy waith y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod (GGIM). Sefydlwyd GGIM ym mis Mawrth 2018 fel grŵp dan gyfarwyddyd gweinidogol i ystyried adroddiad ar ddefnyddio tâp synthetig a thaflenni rhwyll ar gyfer anymataliaeth straen wrinol a phrolaps organau'r pelfis. Estynnwyd cylch gorchwyl y Grŵp ar ôl hynny i gynnwys ystyried dau adroddiad arall ar endometriosis ac anymataliaeth ysgarthol hefyd gan ei bod yn glir y gellid mynd i'r afael ag iechyd y pelfis menywod yn fwy eang drwy ystyried y cyfan gyda'i gilydd.

Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1 miliwn y flwyddyn i GGIM. Mae'r arian hwn wedi cael ei ddefnyddio i gyllido rheolwr y rhaglen a sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr iechyd y pelfis a llesiant ym mhob bwrdd iechyd. Yn fwy diweddar, mae wedi caniatáu i nyrsys endometriosis arbenigol gael eu recriwtio ym mhob bwrdd iechyd yn ogystal ag ystod o weithgareddau eraill.

Yn gynharach eleni, lansiwyd *Mislif Fi*, ein hadnodd ar-lein a llwyfan addysgol. Gwyddom fod tabŵau a diffyg addysg am y mislif yn cael effeithiau negyddol gwirioneddol ar fywydau merched a menywod. Gall effeithio ar iechyd rhywiol ac atgenhedlol yn y dyfodol a gall y diffyg gwybodaeth am fislifoedd a'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'normal' arwain at ddiagnosis hwyr o gyflyrau difrifol megis endometriosis, syndrom ofarïau polysystig (PCOS), anhwylder dysfforig cyn mislif (PMDD), neu ganserau gynaecolegol. Bydd *Mislif Fi* yn helpu i chwalu tabŵau ynghylch y mislif a grymuso menywod ifanc a merched i ddeall yn well eu hiechyd mislif a gwybod beth sy'n 'normal' a phryd y dylent geisio cymorth.

Mae'r menopos yn rhan naturiol o'r broses heneiddio ar gyfer menywod ac mae'n digwydd fel rheol rhwng yr oedrannau 45 a 55. Yn y DU, yr oedran cyfartalog yw 51, ond gall ddigwydd yn llawer cynt. Mae'n bwysig cydnabod, am amryw resymau; y gall profiadau unigol pobl o'r menopos amrywio'n fawr ac felly bydd yr ymateb clinigol hefyd yn amrywio rhwng unigolion.

Mae canllawiau NICE yn cynnwys y gofyniad i fabwysiadu dull unigol ar bob cam o ddiagnosis, ymchwilio i'r menopos a'i reoli a'r angen i atgyfeirio menywod at weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n arbenigo yn y menopos os nad yw triniaethau yn gwella eu symptomau menopos neu mae ganddynt sgil effeithiau trafferthus parhaus.

Rydym wedi darparu £42 miliwn ychwanegol eleni i wasanaethau cymorth iechyd meddwl ac mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ei gwneud yn glir y byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl. O fewn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019 i 2022 diwygiedig, mae ein meysydd blaenoriaeth allweddol yn cynnwys cefnogi iechyd meddwl amenedigol a gwella mynediad at therapïau seicolegol. Cefnogir y meysydd hyn gan fuddsoddiad cynyddol mewn cyllid i wella gwasanaethau.

Ers 2015, rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ledled Cymru, bellach mae timau arbenigol ym mhob ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Dros y 12 mis diwethaf mae Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru gyfan a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi datblygu llwybr gofal. Nod y llwybrau yw safoni ymarfer, darparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ac adlewyrchu dull ataliol ac ymyrryd yn gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal â darparu tegwch, dylai'r llwybrau hyn sicrhau bod y gofal iawn yn cael ei ddarparu gan y bobl iawn ac ar yr adeg iawn.

Mae'r arweinydd clinigol iechyd meddwl amenedigol yn gweithio mewn partneriaeth gyda GGIM, sydd wedi comisiynu sefydliad newid ymddygiadol, Social Change UK, i ddatblygu adnoddau i deuluoedd a'u cefnogwyr lle ystyrir llesiant ac iechyd corfforol a meddyliol gyda'i

gilydd. Bydd y prosiect yn cynnig cymorth drwy adnoddau ac ymgyrch ddilynol sy'n rhoi'r gallu i unigolion yng Nghymru fonitro a diogelu eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn ystod y cyfnod amenedigol, drwy ddull cwrs bywyd. Bydd hyn yn gwella iechyd y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal ac osgoi niwed lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r prosiect yn dechrau gan wrando ar farn pobl Cymru. Drwy'r safbwyntiau a gesglir bydd adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu creu a bydd yr ymgyrch yn rhoi'r hyn y mae arnynt ei eisiau i bobl Cymru o ran y ffordd yr hoffent gael yr wybodaeth. Bwriedir cynnal grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ddechrau 2022. Drwy weithio mewn partneriaeth, gall GGIM a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol gryfhau'r effaith a gwerth ledled Cymru ac arwain at ganlyniadau gwell i deuluoedd ac unigolion drwy gydol y cyfnod amenedigol.

Bydd y gwaith hwn yn ategu dull y Rhwydwaith o ddatblygu cynnig hyfforddiant ar-lein ymhellach, i sicrhau cynaliadwyedd hyfforddiant ac estyn hyfforddiant i holl staff y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd ledled Cymru yn ystod y cyfnod amenedigol.

Mae'r GIG yng Nghymru ac yn y DU yn fwy eang wedi wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen yn sgil COVID-19. Fel nifer o wasanaethau ar draws ein system iechyd, mae tarfu mawr wedi bod ar ddarpariaeth gwasanaethau gynaecolegol ac mae amseroedd aros i lawer o fenywod y mae angen gofal arnynt wedi cynyddu'n ddybryd.

Ar 22 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun adfer i'r GIG yng Nghymru. Mae'r cynllun yn amlinellu egwyddorion cyffredinol adferiad a'r dull lefel uchel y byddwn yn ei ddefnyddio, gan adeiladu ar ffyrdd newydd o weithio a chyfleoedd i wneud pethau'n wahanol. Er na chyfeirir yn benodol at wasanaethau gynaecolegol, mae disgwyl y bydd yr holl wasanaethau iechyd yn adlewyrchu'r newidiadau a amlinellir yn y cynllun.

Yr gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1222: Gwahardd barbeciws untro o'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau yng Nghymru!

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1251-1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1222

**Teitl y ddeiseb:** Gwahardd barbeciws untro o'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau yng Nghymru!

**Geiriad y ddeiseb:** Bob blwyddyn, mae archfarchnadoedd a siopau ar-lein yn annog pobl i brynu miloedd o farbeciws untro rhad sydd wedyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiofal ac anghyfrifol, gan arwain at ddifetha cynefinoedd bywyd gwyllt bregus a phwysig.

Dim ond drwy wahardd y nwyddau hyn yn gyfan gwbl y gallwn ni warchod ein bywyd gwyllt gwerthfawr yng Nghymru.

Erbyn hyn, rydym yn deall pam mae ein hucheldiroedd a'n fforestydd yn bwysig ar gyfer storio carbon a'n hamddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd. Hefyd, mae'n rhaid i ni atal llygredd morol rhag niweidio moroedd Cymru.

Digon yw digon… mae'n hen bryd gwahardd barbeciws untro o draethau Cymru, yn ogystal â'n Parciau Cenedlaethol a'n Gwarchodfeydd Natur. Gyda'r argyfwng ecolegol yn gwaethygu, ni allwn fforddio anwybyddu'r mater hwn.

Mae'r tanau hyn yn cymryd amser maith i'w rheoli a'u diffodd. Fel gyda thanau ar y rhosydd, unwaith y bydd un darn o dir sydd ar dân wedi'i ddiffodd, gall y tân deithio o dan y ddaear ac ailgynnau mewn man arall. Caiff y tanau effaith hynod ddinistriol ar ardaloedd lleol, gan ladd bywyd gwyllt a distrywio ardaloedd anferth o brydferthwch naturiol, heb sôn am roi ein

bywydau ni mewn perygl. Mae modd osgoi'r holl effeithiau hollol ddiangen hyn.

> Caiff nifer o'n traethau mwyaf prydferth eu difrodi bob haf, gyda barbeciws crasboeth yn cael eu cynnau yn llythrennol modfeddi o dan arwyneb y tywod, gan fygwth bywyd gwyllt a phobl fregus sy'n defnyddio'r traeth… mae'n amser i ni warchod ein byd naturiol yn lle ei wylio'n llosgi!

# 1. Cefndir

Gall tanau gwyllt ddigwydd pan fydd barbeciws untro heb eu diffodd yn cael eu gwaredu'n amhriodol neu eu gadael. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn pwysleisio bod barbeciws untro yn 'gallu achosi tanau gwyllt anodd eu rheoli yng Nghymru'. Roedd barbeciws untro hefyd yn gysylltiedig â than gwyllt a ddifrododd 190 hectar o dir yn Lloegr yn 2020.

Mae pobl sydd o blaid gwahardd barbeciws untro'n pwysleisio bod eu dyluniad cludadwy, sef hambwrdd tunffoil llawn siarcol â gorchudd rhwyll wifrog drosto, yn golygu ei bod yn hawdd eu cludo i fannau anghysbell lle y gallant achosi tanau.

Mae eraill yn dadlau bod barbeciws yn ffordd wych i bobl fwynhau awyr agored Cymru.

Nododd deiseb a gyflwynwyd i Senedd y DU, yn annog Llywodraeth y DU i wahardd barbeciws untro ei bod yn hawdd eu cludo cyn eu defnyddio, ond:

> they are almost impossible to carry away for many hours after use whilst they remain hot, meaning they are often left as litter with devastating consequences

Mewn ymateb i ddeiseb Senedd y DU, dywedodd Rebecca Pow, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y canlynol:

> In terms of legal powers, current byelaw legislation allows for local authorities to restrict and enforce the use of disposable barbecues in parks and public spaces.

Yn haf 2021, cyhoeddodd y Co-op,, cadwyn archfarchnad, na fyddai’n gwerthu barbeciws untro mwyach mewn siopau ger Parciau Cenedlaethol yn y DU i helpu i atal tanau gwyllt dinistriol.

Mae Bil Barbeciws Untro wedi'i gyflwyno i Senedd y DU. Ei ddarlleniad cyntaf oedd ar 17 Tachwedd 2021 a disgwylir yr ail ddarlleniad ar 14 Ionawr 2022. Byddai'r Bil yn gwahardd defnyddio barbeciws untro ar rostir agored; ac yn rhoi’r pŵer i awdurdodau lleol wahardd gwerthu barbeciws untro yn eu hardal. Nid yw'r Bil ar gael i'r cyhoedd eto, felly nid yw Ymchwil y Senedd yn eglur ynghylch ei fanylion na'i faint.

## Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Sefydlodd *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* reolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau ar draws y DU. Sefydlodd y Ddeddf egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu, a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU fel Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, os yw nwydd yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle y cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddi, gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni’r safonau yn y rhannau eraill hynny, hyd yn oed os ydynt yn wahanol.

O dan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu, nid yw rheolau sy'n rheoleiddio sut y dylid gwerthu nwyddau mewn un rhan o'r DU sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn darparwyr o rannau eraill o'r DU yn gymwys yn gyffredinol.

Gall gwahardd gwerthu barbeciws ddod o fewn cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn *Neddf Marchnad Fewnol 2020*. Mae hyn yn golygu effaith ymarferol, o bosibl, ar effaith a gorfodadwyedd cynnig y ddeiseb.

# 2. Camau Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud o'r blaen (Medi 2020) nad oes ganddi bwerau i reoleiddio'r defnydd o farbeciws untro.

Mae llythyr y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y ddeiseb hon yn nodi’r canlynol:

> We have worked closely with the National Park Authorities on messaging since Covid restrictions began, particularly around responsible recreation.

Roedd hyn yn cynnwys:

> Targeted messages, around the risks of disposable barbecues and only lighting fires in designated places.

O ran difrod tân a achoswyd ym Mharciau Cenedlaethol Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau Cymru, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> The great majority of fires in grassland and forested areas are started deliberately and maliciously, not by barbecues. We have reduced the number of such fires significantly in recent years through a programme of collaboration between the Fire Service, the Police, Natural Resources Wales and others to deter people from deliberate fire-setting and to respond swiftly to fires that do occur.

# 3. Camau Senedd Cymru

Ym mis Medi 2021, ysgrifennodd Janet Finch-Saunders AS, at archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill yn eu hannog i beidio â gwerthu barbeciws untro yr haf nesaf.

Mewn ymateb, dywedodd Sara Jones, pennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru, fod angen i farbeciws untro gael eu defnyddio'n gyfrifol a'u gwaredu'n gywir.

Ym mis Medi 2020, cyflwynodd Llyr Gruffydd AS, gwestiwn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru:

> Pa ystyriaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i reoleiddio'r defnydd o farbeciws untro, yn benodol o ystyried y risg y maent yn ei beri i dir cyhoeddus a diogelwch y cyhoedd?

Mewn ymateb, nododd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol (ar y pryd) y canlynol:

> The Welsh Government is committed through its Clean Air Plan for Wales to look at the practicalities, advantages and challenges of regulating outdoor appliances and fuels, which would include disposable barbecues.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1222
Ein cyf/Our ref JJ/11923/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1222 Gwahardd barbeciws tafladwy o'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Thraethau Cymru.

Mae nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol wedi'u cynnal ynghylch mynediad cyfrifol i gefn gwlad. Rydym wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar negeseuon ers dechrau cyfyngiadau COVID, yn enwedig o ran hamdden gyfrifol. Arweiniodd hyn at ymgyrch farchnata Croeso Cymru i annog ymddygiad cyfrifol yng nghefn gwlad a gyrhaeddodd nifer fawr o bobl ar fysiau, gwasanaethau traffyrdd, ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar negeseuon penodedig mewn perthynas â risgiau barbeciws untro a dim ond cynnau tanau mewn mannau dynodedig.

O ran y difrod tân a achosir i'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau Cymru drwy gamddefnyddio barbeciws, mae'r mwyafrif helaeth o danau mewn glaswelltir ac ardaloedd a ragwelwyd yn cael eu cynnau'n fwriadol ac yn faleisus, nid gan farbeciws. Rydym wedi lleihau yn sylweddol nifer y tanau o'r fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy raglen o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i atal pobl rhag cynnau tân bwriadol ac ymateb yn gyflym i danau sy'n digwydd. Dyma ein prif ffocws o hyd. Er bod tanau damweiniol, fel y rhai a ddechreuwyd gan farbeciws a stofiau gwersylla, hefyd yn bryder, mae'r risgiau dan sylw yn gymharol fach.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.3

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Deiseb: Yr argyfwng tai

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1044-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1204

Teitl y ddeiseb: Amddiffynnwch bobl Cymru - Cymerwch gamau brys ar yr argyfwng tai nawr

Geiriad y ddeiseb: Mae prisiau tai'n gorfodi pobl leol o'u cymunedau eu hunain. Mae hyn yn dinistrio ein diwylliant a'n hiaith. Nid yw adeiladu mwy o dai'n ddigon.

Rydym yn galw am ailfeddwl polisi sylfaenol i flaenoriaethu anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pobl Cymru yn unol â'r cynllun gweithredu Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhowch lais i bobl ar ddatrys ein hargyfwng tai: gweithredu wyth gofyniad y Siarter Cyfiawnder Cartrefi a sefydlu Cynulliad Dinasyddion i sbarduno newid.

Rhagor o fanylion

Mae Covid-19 wedi dangos yr angen am gamau gweithredu pendant gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argyfwng mawr. Mae angen gweithredu ar frys nawr i fynd i'r afael â'n hargyfwng tai, cyn i ddiwylliannau lleol a'r Gymraeg gael eu colli a chyn i farchnad dai ddireolaeth ddinistrio cymunedau trefol a gwledig Cymru.

Mae'r grŵp Siarter Cyfiawnder Cartrefi yn gydweithrediad gwleidyddol di-blaid ar draws Cymru. Gwnaethom ymchwilio i'r holl faterion a'r atebion a gynigiwyd gan eraill a'u crynhoi mewn wyth maes cyflawnadwy a chadarnhaol ar gyfer gweithredu.

Gweithredu gofynion y Siarter; defnyddio Cynulliad Dinasyddion i sbarduno'r newid:

1. Datgan argyfwng tai yng Nghymru
2. Creu bil i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb tai.
3. Amddiffyn ein cymunedau; rhai gwledig a threfol.
4. Amddiffyn y Gymraeg a diwylliant Cymru.
5. Diwygio darpariaeth tai cymdeithasol.
6. Mynd i'r afael â'r mater dybryd perchnogaeth ail gartrefi ar frys.
7. Diwygio cyfreithiau cynllunio i ymateb i anghenion tai lleol.
8. Creu Cynulliad Dinasyddion ar dai.

I gael mwy o wybodaeth am bob gofyniad, ewch i siartercartrefi.org

# 1. Cefndir

Mae'r ddeiseb hon yn codi amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â thai, cymunedau a'r Gymraeg.

Mae nifer o randdeiliaid wedi lleisio pryderon tebyg i'r deisebwyr, yn enwedig yn y cyfnod cyn etholiad y Senedd yn 2021.

Mae'r deisebwyr yn cyfeirio at fil i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb tai. Mae ymgyrch dros hawl i dai digonol yn cael ei arwain gan Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru. Mae'r ymgyrch honno'n galw am ymgorffori'r hawl i dai digonol (fel yr amlinellir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol) i gyfraith Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen waith bum mlynedd nesaf ar gyfer Cymraeg 2050, y strategaeth genedlaethol i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn "Creu Cynllun Tai Cymunedau

Iaith Gymraeg a defnyddio ysgogiadau economaidd i gryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith."

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ysgrifennu at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon ac wedi amlinellu rhai o'r camau y mae'r llywodraeth yn eu cymryd.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## 2.1. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddaru ar 7 Rhagfyr i ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae'n gwneud nifer o ymrwymiadau sy'n berthnasol i'r ddeiseb hon, gan gynnwys:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio.
- Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau.
- Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.
- Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.
- Diwygio'r system diogelwch adeiladau bresennol, gan gynnwys ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.
- Ymchwilio i ddichonolrwydd cyflwyno morgeisi awdurdodau lleol.
- Defnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

## 2.2. Ail gartrefi

Mae effaith ail gartrefi ar gymunedau, a chartrefi gwyliau yn fwy cyffredinol (gan gynnwys lletyau hunanarlwyo) wedi bod yn destun llawer o drafod yn y Senedd yn ystod y misoedd diwethaf.

Fe gyhoeddwyd *Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru*, gan Dr Simon Brooks o Brifysgol Abertawe, ym mis Mawrth 2021. Gwnaeth yr adroddiad 12 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys rheoli niferoedd ail gartrefi, gwneud defnydd llawn o'r pwerau i godi premiwm treth gyngor ar ail gartrefi a newidiadau i'r system gynllunio.

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg at Dr Brooks ar 6 Gorffennaf 2021 yn ymateb i'w adroddiad, gan amlinellu a sut roedd ei argymhellion wedi llywio dull arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r mater.

At hynny, ar 6 Gorffennaf 2021, gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad i'r Senedd ar ffforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg. Ymrwymodd y datganiad i "ddatblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu diogelu".

Gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ar *ail gartrefi a fforddiadwyedd* ar 23 Tachwedd 2021. Cadarnhaodd y datganiad:

- Gan ddechrau ym mis Ionawr, bydd cynllun peilot fesul cam yn cael ei redeg yn Nwyfor, Gwynedd i brofi nifer o ymyriadau. Bydd Cam 1 yn cynnwys ystod o gymorth ymarferol i helpu pobl i gael mynediad at dai fforddiadwy; Bydd Cam 2 yn edrych ar y system gynllunio;
- Bydd ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a ddylai awdurdodau cynllunio lleol allu gofyn am ganiatâd cynllunio pan fydd prif gartref yn newid i ail gartref neu gartref gwyliau tymor byr;
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chontractwr ar ddichonoldeb a siâp **cynllun trwyddedu neu gofrestru statudol** ar gyfer pob llety gwyliau; cynigir y bydd cynllun gwirfoddol yn cael ei sefydlu yn yr ardal beilot i lywio cynllun statudol;
- Bydd cyllid ar gael i nifer o awdurdodau lleol fel y gellir prynu eiddo gwag ar gyfer tai rhent cymdeithasol.

Yn dilyn datganiad y Gweinidog Newid Hinsawdd, gwnaeth Gweinidog y Gymraeg Addysg ddatganiad ar y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg. Roedd y datganiad yn amlinellu ystod o fesurau yr ymgynghorir arnynt, gan gynnwys:

- cefnogaeth i fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol cymunedol, a busnesau cymdeithasol yn y sector twristiaeth a fydd yn eiddo i'r gymuned;
- sefydlu Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai er mwyn ystyried prosiectau ac ymchwil posibl;
- sefydlu cynllun “cyfle teg” gwirfoddol, a fydd yn golygu bod tai sydd ar y farchnad ar gael i bobl leol yn unig am amser cyfyngedig; a
- sefydlu Comisiwn ar gymunedau Cymraeg i ddeall yn well yr heriau sy’n wynebu cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## 2.3. Y cyflenwad tai

Cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig ar dai cymdeithasol ar 15 Mehefin 2021. Nododd y Gweinidog bod y targed o 20,000 yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer cartrefi cymdeithasol fforddiadwy i'w rhentu. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog hefyd "credaf mewn cymunedau gwirioneddol gynaliadwy ac er mwyn cyflawni hyn rhaid i ni sicrhau cymunedau deiliadaeth gymysg."

Mae ystadegau cyflenwad tai Llywodraeth Cymru yn rhoi ystod o amcangyfrifon ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy a thai marchnad ychwanegol sydd eu hangen bob blwyddyn yng Nghymru.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Ym mis Mawrth 2021, trafododd y Senedd ddeiseb a oedd â’r nod o roi pwerau i awdurdodau lleol reoli’r farchnad dai yn ardaloedd gwledig ac arfordirol Cymru.

Ar 16 Mehefin 2021, trafododd y Senedd newydd etholedig gynnig yn enw Sian Gwenllian a oedd yn galw "...ar Lywodraeth Cymru i weithredu yn ddi-oed i fynd i’r afael â’r argyfwng tai." Derbyniwyd y cynnig gan y Senedd heb welliannau.

Mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd wrthi’n cynnal ymchwiliad i ail gartrefi ac mae wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1204
Ein cyf/Our ref JJ/11393/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

8 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am roi gwybod i mi am Ddeiseb P-06-1204 – "Amddiffynnwch bobl Cymru - cymerwch gamau brys ar yr argyfwng tai nawr".

Rydym yn cydnabod yr heriau difrifol sy'n bodoli mewn perthynas â chyflenwad tai fforddiadwy, ac rydym eisoes yn gweithredu ar draws ystod eang o feysydd. Mae'r llywodraeth hon yn gwbl benderfynol o gynyddu mynediad at dai fforddiadwy, carbon isel o ansawdd yng Nghymru. Mae'r achos dros fuddsoddi mewn tai cymdeithasol cyn gryfed ag erioed. Dyna pam y byddwn ni'n cyflenwi 20,000 o gartrefi newydd, carbon isel i'w rhentu yn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth hon; a pham hefyd ein bod wedi dyrannu £250m i'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2021-22: sydd bron yn ddwbl y gyllideb yn 2020-21.

Er bod ein targed yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol, rydym yn gwybod hefyd bod angen parhaus am gymorth i brynu tai yng Nghymru. Mae rhaglenni fel Prynu Cartref – Cymru, Cymorth i Brynu – Cymru a Hunanadeiladu Cymru yn rhan bwysig o'r pecyn i sicrhau bod pobl a theuluoedd yn cael cartref sy'n addas iddyn nhw.

Ail gartrefi

Rydym hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud ag ail gartrefi a sicrhau bod gan bobl gyfleoedd i fanteisio ar opsiynau fforddiadwy er mwyn aros yn eu cymunedau lleol. Rydym yn gweithredu mewn nifer o ffyrdd ar draws Llywodraeth Cymru, yn unol â'm datganiad llafar:
(https://record.assembly.wales/Plenary/12321#A66334).

Wrth gwrs, mae yna ystod o safbwyntiau ar y pwnc hwn, ac mae'n bwysig nad ydym yn anghofio'n cymunedau, a'n bod yn gwrando ar farn pawb ac yn ystyried pob mater, waeth beth fo'r budd nag o ba sector y daw. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunanarlwyo, sy'n agored tan 17 Tachwedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyma'r ddolen berthnasol: https://llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-drethi-lleol-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-hunanddarpar-html. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad yn yr hydref ar ein Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg a'r camau gweithredu penodol y gallwn eu cymryd ledled y sector tai ehangach i gefnogi iechyd a chynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae ein gwaith ar gynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety gwyliau, gan gynnwys eiddo ar osod tymor byr, yn mynd rhagddo a bydd yn adrodd fis Rhagfyr.

Drwy hyn i gyd, rydym yn ymwybodol o'r angen i osgoi canlyniadau anfwriadol wrth i ni geisio cael system deg, ymarferol, effeithiol.

Cytundeb Rhentu

Mae cael mynediad at gartrefi fforddiadwy o ansawdd yn greiddiol i'n dull gweithredu eang. Rydych yn ymwybodol, rwy'n siŵr, bod Cymdeithasau Tai yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau llywodraethiant da, gwytnwch ariannol a'u bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd i denantiaid. Yn 2019, cytunwyd ar gytundeb rhentu pum mlynedd, a oedd yn cyfyngu ar allu pob landlord cymdeithasol i gynyddu rhent yn fwy na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) +1%. CPI +1% yw'r cynnydd uchaf mewn rhent y gall landlordiaid cymdeithasol ei weithredu, a'u cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod rhenti yn fforddiadwy i'w tenantiaid.

Sector Rhentu Preifat

Rydym hefyd yn gweithio ar fentrau pellach i wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy, gan gynnwys ein Cynllun Lesio'r Sector Rhentu Preifat. Mae'r cynllun hwn yn annog perchnogion i lesio eu heiddo i awdurdod lleol. Yna gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r eiddo i gartrefu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu'n ddigartref mewn gwirionedd, ar gyfraddau lwfans tai lleol. Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun hwn yn denu amrywiaeth o wahanol fathau o berchnogion eiddo gan gynnwys y rhai a allai fel arall ystyried gadael y farchnad. Er bod y cynllun yn weithredol ar hyn o bryd mewn nifer fach o awdurdodau lleol, mae'n ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu i ymestyn y cynllun hwn ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym yn gweithio i weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ystod blwyddyn gyntaf ein rhaglen ddeddfwriaethol ac rydym wedi cadarnhau ein hymrwymiad i ddarparu o leiaf chwe mis o amser paratoi ar gyfer tenantiaid, landlordiaid ac eraill drwy gyhoeddi'r dogfennau allweddol y bydd eu hangen arnynt. Mae gweithredu'r Ddeddf uchelgeisiol hon yn newid cymhleth i'r system gyfan drwy drawsnewid y sector rhentu yng Nghymru.

Cynllunio

Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn cydnabod ein bod angen adeiladu rhagor o gartrefi mewn ffordd sy'n sefydlogi ac yn gwella ein cymunedau. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol wedi cael ei ailddrafftio ar sail datblygu lleoliadau cynaliadwy sydd â mynediad at seilwaith o ansawdd a mannau agored. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall yr angen am dai yn eu cymunedau a, lle mae tystiolaeth ganddynt, gallant geisio rheoli meddiannaeth tai newydd a'u cyfyngu i bobl leol. Rydym yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod anghenion pobl leol yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau datblygu.

Yn olaf, rwy’n cydnabod y pryderon sy’n cael eu hadlewyrchu yn y ddeiseb hon a byddaf, wrth gwrs, yn parhau i gydweithio â grwpiau cynrychioliadol wrth i ni fwrw iddi gyda’n hagenda uchelgeisiol a phellgyrhaeddol a’n hymrwymiadau niferus.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1204 Protect the people of Wales - Take urgent action on the housing crisis now, Correspondence – Petitioners to Committee, 12.12.21**

We have read the response from Julie James regarding our petition. In this letter she outlines a range of actions some of which will take many years to roll out and in themselves prompt a range of further questions and clarifications.

A growing sense of outrage and despair has to be addressed and we have to have urgent and honest debates which should involve the participation of everyone affected by this crisis. We cannot continue to pretend that the housing crisis is only down to second homes and short term holiday lets, important though these issues are. We have to identify the whole range of causes which are having a fundamental impact on the Welsh housing crisis however difficult and complex these issues may be.

The housing crisis has exposed a deeply dysfunctional housing market and an unfair and unequal access to housing. It has highlighted great disparities in wealth leading to market prices beyond the reach of most local Welsh buyers, but affordable to wealthy people, most of whom are from England.This has an impact on social justice, the cohesiveness of communities and an impact on local services as a result of rapid demographic shifts. Escalating housing costs have led to a sharp increase in child poverty linked as it is to escalating housing costs. We also see a devastating impact on the culture and Welsh language in communities across Wales. In very many places local people are now largely excluded from renting or owning in their own communities.

In Julie James' letter there has been no mention of controlling the housing market despite the fact that this is an idea which is gaining more traction in wider society, and which offers great potential. If we are to meet the goals of the Well-being of Future Generations Act this approach will need to be part of the debate, both in the Senedd and in wider Welsh society. This system already exists in the UK. The Channel Islands are protected by the 'Jersey model' which we in Wales should be seriously exploring as a tried and tested example to follow.

As a campaign group we respectfully suggest that a full and proper debate on these issues is very necessary and that evidence and solutions should be gathered from the wider community if it is to take place. We are all affected by these issues, we should all be properly engaged, informed and enabled to participate in the solutions. Participatory political tools such as Citizens Assemblies should be urgently employed to work with the wider community. Please initiate this debate in the Senedd as a matter of urgency.

We are grateful for this opportunity to feedback, to be involved, and for the engagement of the petitions committee.

Kind regards,

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1225: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru orfod cynnal a chyhoeddi arolygon bywyd gwyllt blynyddol cyn cwympo coetir

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1251-1

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1225

**Teitl y ddeiseb:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru orfod cynnal a chyhoeddi arolygon bywyd gwyllt blynyddol cyn cwympo coetir

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli coedwigoedd y wladwriaeth, ond nid ydynt yn cynnal arolygon o boblogaethau rhywogaethau gwarchodedig cyn cwympo coetir. Er mwyn osgoi colli bioamrywiaeth, dylent asesu maint poblogaethau rhywogaethau prin sy'n bresennol cyn ymgymryd â gweithrediadau cwympo coetir, fel eu bod yn sicrhau nad yw colli cynefinoedd yn peri dirywiad. Dylai'r data poblogaeth gael ei gyhoeddi cyn i unrhyw goed gael eu gwerthu i'w torri. Ar hyn o bryd, dim ond ceisio atal anifeiliaid ac adar prin rhag cael eu lladd gan beiriannau cynaeafu y maen nhw'n ei wneud, ond nid yw hyn yn ddigon.

Nid yw'n ddigon da ceisio osgoi lladd anifeiliaid prin pan fydd coed yn cael eu torri i lawr. Mae angen rhai mathau o gynefin coedwig ar adar, ystlumod, pathewod a madfallod ac mae ei dorri i lawr yn golygu na allant oroesi yno mwyach. Yn ôl Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, mae mamaliaid fel y wiwer goch a llygoden y dŵr, adar fel y gylfinir a phlanhigion fel tegeirian y fign wedi'u gwasgu allan trwy golli cynefin https://bbc.co.uk/news/uk-wales-58641886...
Mae angen i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn onest ac arolygu poblogaethau cyn cwympo coed, gan gyhoeddi'r data fel y gall y cyhoedd weld a yw'r asiantaeth yn peri i'r boblogaeth ostwng. Fe ddylen nhw fod yn cymryd yr



www.senedd.cymru

awenau gan sicrhau bod gan rywogaethau prin ddigon o gynefin, ac nid dim ond torri coedwigoedd i lawr trwy'r amser heb ddangos beth mae hyn wedi'i wneud i ystlumod a phathewod.

# 1. Cefndir

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Mae Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn cyfrif am ~40 y cant o gyfanswm Adnodd Coedwigoedd Cymru a 6 y cant o gyfanswm arwynebedd tir Cymru. O dan *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*., mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd statudol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth' cyn belled â'i fod yn cyd-fynd ag arfer ei swyddogaethau yn briodol. Yn ei gyhoeddiad, Diben a rôl Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, dywed Cyfoeth Naturiol Cymru:

> Un o swyddogaethau YGLlC yw cynnal, cadw a gwella'n briodol amrywiaeth fiolegol ecosystemau coetiroedd Cymru

## 1.1. Ardystiad coetir

Mae'r coetiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n ddeuol i'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd ® (FSC®) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd. Mae'r cynlluniau ardystio coedwigoedd achrededig hyn yn seiliedig ar Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU, sef safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio bod coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy yn y DU. Mae Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU yn nodi'r angen i gymryd camau priodol i amddiffyn y cynefinoedd a'r rhywogaethau â blaenoriaeth a nodwyd, yn unol â chynlluniau y cytunwyd arnynt gydag asiantaethau cadwraeth natur.

## 1.2. Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn manylu ar unrhyw rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd â blaenoriaeth y gallai ei weithrediadau effeithio arnynt mewn Cynllun Adnoddau Coedwigoedd. Mae hyn yn cynnwys gweithrediadau yn yr Uned Rheoli Coetir neu'r ardal gyfagos, a'r effaith ar raddfa tirwedd neu gysylltedd.

Mae Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd yn nodi amcanion tymor hir ac maent yn sail i raglenni gwaith 10 mlynedd.

Mae Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd yn cael eu diweddaru bob 10 mlynedd, gyda gwybodaeth yn cael ei chasglu o arolygon safle a'r Ganolfan Cofnodion Lleol, sy'n cadw cofnod o'r achlysuron y gwelir bywyd gwyllt yn yr ardal. Mae llythyr Llywodraeth Cymru am y ddeiseb hon yn dweud:

> Mae ailddatblygu [Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd] hefyd yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddarparu rhagor o wybodaeth bellach am rywogaethau a chynefinoedd.

## 1.3. Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop

Mae gan Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop amddiffyniad cyfreithiol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a ganfuwyd yng Nghoetiroedd Cymru yn cynnwys:

- 17 rhywogaeth o ystlum;
- Pathewod;
- Madfallod dŵr cribog; a
- Dyfrgwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu canllawiau penodol i rywogaethau ar sut i benderfynu a oes rhywogaethau a warchodir gan Ewrop yn bresennol mewn coetir a beth i'w wneud os yw hynny'n wir. Mae angen trwydded rhywogaethau a warchodir ar gyfer gwaith a fydd yn tarfu ar rywogaethau a warchodir, neu eu cynefin, neu'n peri niwed iddynt.

Mae llythyr Llywodraeth Cymru am y ddeiseb hon yn dweud:

> Cynhelir Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) hefyd lle bo angen mewn perthynas â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS), sy'n manylu ar y mesurau lliniaru sydd eu hangen yn ystod gweithrediadau. Mae hyn yn golygu ystyried yr effeithiau y gallai gweithrediadau eu cael ar rywogaethau a warchodir a graddau'r cynefin sydd ei angen i gefnogi'r rhywogaeth honno o fewn a thu allan i'r WMU.
>
> Cynhelir arolygon safle fel rhan o'r broses cynllunio lleiniau ['coupe' yn Saesneg] o fewn yr FRP, er mwyn canfod a oes unrhyw gyfyngiadau ychwanegol. Os yw'r EPS yng nghyffiniau'r llain gweithredol, gwneir cais

am Drwydded EPS a rhestrir y mesurau lliniaru priodol yn y cynllun megis parthau gwahardd (ni chaniateir unrhyw weithrediadau i ddiogelu cyfran ofynnol o'r cynefin) ac amseriad y cyfyngiadau. Gwneir hyn hefyd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig eraill os yw'r rhain o fewn cyffiniau'r llain.

### 1.4. Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd

Rhoddir Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd ar gofrestr gyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cyfle pellach i ymgyngoreion allanol roi adborth a sylwadau ar y cynlluniau.

Mae llythyr Llywodraeth Cymru am y ddeiseb hon yn tynnu sylw at y ffaith nad yw data'r arolwg a gasglwyd i lywio'r Cynllun Adnoddau Coedwigoedd a'r cynlluniau lleiniau ynddo yn cael eu rhannu'n allanol 'oherwydd sensitifrwydd y data'.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Amlinellir dull Llywodraeth Cymru o gynnal arolygon bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â chwympo coetir yn adran Cefndir y briff hwn a llythyr Llywodraeth Cymru am y ddeiseb hon.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ar 8 Rhagfyr 2021, trafododd y Senedd ddeiseb gysylltiedig, P-06-1208, sy'n galw am ddeddfau newydd i amddiffyn cynefin gwiwerod coch.

Yn y ddadl, tynnodd Darren Miller AS, hyrwyddwr rhywogaeth y wiwer goch Cyswllt Amgylchedd Cymru yn y Senedd, sylw at y ffaith nad oes "unrhyw rwymedigaeth o gwbl" i ddiweddaru neu adnewyddu Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd i adlewyrchu newidiadau ym mhoblogaeth y wiwer goch yn flynyddol. Roedd yn dadlau dros ddiweddaru cynlluniau 10 mlynedd yn amlach i amddiffyn poblogaethau bywyd gwyllt.

Yn ei hymateb, dywedodd Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, fod Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn trafod "pa mor agos at y gwaith cwympo ei hun y dylid cael ail adolygiad o'r safle ar gyfer amodau cynefin gwahanol". Dywedodd na fyddai ail arolwg yn cael ei wneud o bob safle, ac y byddai "ffactorau" yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ar y mater.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1225
Ein cyf/Our ref JJ/11977/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

23 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Tachwedd ynghylch Deiseb P-06-1225 o'r enw "Gwneud i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal a chyhoeddi arolygon bywyd gwyllt blynyddol cyn cwympo coetiroedd."

Mae'r ddeiseb yn codi materion pwysig o ran diogelu bywyd gwyllt a'u cynefin wrth gynllunio gweithrediadau cwympo coed. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ddeiseb P-06-1208 ynghylch galwad am gyfreithiau newydd i ddiogelu cynefin y wiwer goch a ystyriwyd gan y Pwyllgor Deisebau yn ddiweddar.

Mae'r coetiroedd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn eu rheoli ar ran Gweinidogion Cymru wedi'u hardystio i Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU (UKWAS). Mae hon yn safon ardystio annibynnol ar gyfer gwirio rheoli coetiroedd yn gynaliadwy yn y DU a ddefnyddir ar gyfer ardystiad y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd® (FSC®) a'r Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Mae'r Safon yn nodi'r angen i gymryd camau priodol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth a nodwyd yn unol â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt gydag asiantaethau cadwraeth natur.

Mae CNC yn gwneud hyn drwy ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd. Mae'r rhain yn nodi amcanion hirdymor ac maent yn sail i raglenni gwaith 10 mlynedd. Mae Cynllun Adnoddau Coedwigoedd (FRP) yn manylu ar unrhyw rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd â blaenoriaeth y gallai gweithrediadau o fewn yr Uned Rheoli Coetiroedd (WMU) neu'r ardal gyfagos effeithio arnynt ar raddfa tirwedd neu gysylltedd. Gwnaed hyn hefyd ar lefel uned reoli unigol lai neu lefel y llannerch o fewn yr FRP. Cesglir y wybodaeth hon fel rhan o'r gwaith o adnewyddu ac ailddatblygu'r cynlluniau hyn bob 10 mlynedd gan ddefnyddio system GIS Forester CNC sy'n cael ei diweddaru'n gyson yn dilyn arolygon safle a data a gafwyd drwy'r Ganolfan Cofnodion Lleol. Mae ailddatblygu'r Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddarparu rhagor o wybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) hefyd lle bo angen mewn perthynas â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS), sy'n manylu ar y mesurau lliniaru sydd eu hangen yn ystod gweithrediadau. Mae hyn yn golygu ystyried yr effeithiau y gallai gweithrediadau eu cael ar rywogaethau a warchodir a graddau'r cynefin sydd ei angen i gefnogi'r rhywogaeth honno o fewn a thu allan i'r WMU.

Cynhelir arolygon safle fel rhan o'r broses cynllunio lleiniau o fewn yr FRP, er mwyn canfod a oes unrhyw gyfyngiadau ychwanegol. Os yw'r EPS yng nghyffiniau'r llain gweithredol, gwneir cais am Drwydded EPS a rhestrir y mesurau lliniaru priodol yn y cynllun megis parthau gwahardd (ni chaniateir unrhyw weithrediadau i ddiogelu cyfran ofynnol o'r cynefin) ac amseriad y cyfyngiadau. Gwneir hyn hefyd ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig eraill os yw'r rhain o fewn cyffiniau'r llain. Mae'r broses a'r canllawiau trwyddedu EPS, yn enwedig mewn perthynas â pathewod, yn ystyried yr ardal o gynefin addas a gynigir ar gyfer cwympo coed (teneuo a chlirio) dros nifer o flynyddoedd i asesu effeithiau cronnol posibl. Gall hyn olygu cadw graddau gofynnol o gynefin er mwyn sicrhau bod y boblogaeth yn cael ei chynnal tra bo'r ardal gyfagos yn gwella'n ôl i gynefin addas. Mae cyfrannau a hyd yr amddiffyniad rhag gweithrediadau e.e. 5 mlynedd yn dibynnu ar gyflwr cynefin a rhywogaethau dan sylw.

Ar ôl ei gwblhau, rhoddir yr FRP ar gofrestr gyhoeddus CNC i roi cyfle pellach i ymgyngoreion allanol roi sylwadau ar y cynlluniau. Yna rhoddir cymeradwyaeth ar gyfer cwympo coed os yw'r FRP yn cydymffurfio â Safon Coedwigoedd y DU (UKFS).

Mae'r Canolfannau Cofnodion Lleol yn cadw data sydd ar gael i'r cyhoedd. Nid yw data'r arolwg a gesglir i lywio'r cynlluniau FRP a'r cynlluniau lleiniau ynddo yn cael ei rannu'n allanol oherwydd sensitifrwydd y data. Dangosir ardaloedd gwahardd neu ardaloedd cyfyngedig ar fapiau contract ond nid ydynt yn cynnwys lleoliadau penodol. Cynhwysir mesurau lliniaru o fewn manylion Gwerthiannau Pren i sicrhau bod prynwyr yn ymwybodol o'r mesurau y mae'n ofynnol iddynt eu mabwysiadu yn ystod gweithrediadau. Cynhelir arolwg pellach o'r safle cyn i'r gwaith ddechrau sefydlu a oes unrhyw gyfyngiadau newydd yn bresennol. Os felly, mae System Gwybodaeth Ddaearyddol Coedwigoedd yn cael ei ddiweddaru ac mae unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu cyfleu i'r contractwr.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**P-06-1225 Make Natural Resources Wales undertake and publish annual wildlife surveys before felling woodland, Correspondence – Petitioner to Committee, 02.12.21**

Dear Committee

Re: Petition P-06-1225

Thank you for sending me the Minister's response (Ref JJ/11977/21).

My petition sought Natural Resources Wales (NRW) to publish survey data before and after timber operations:

*'To avoid biodiversity loss they* [NRW] *should assess the size of rare species populations present before felling operations are undertaken, so that they ensure habitat loss does not cause decline. The population data should be published before any trees are sold for cutting.'*

The petition highlights the need for transparency with regard to the impacts of felling on rare species. To assess impact requires an understanding of abundance before and after operations that quantifies population abundance. Qualifying that a species is present or likely to be present after operations is not the same thing at all. The latter does not allow decline to be identified nor its potential scale predicted.

I feel that the Minster has not addressed the core of the petition directly. In the final paragraph she writes that survey data collected to inform Forest Resource Plans is not shared due to sensitivity. What are the sensitivities? One could imagine a need to redact information if a species was at risk from wildlife crime or accidental disturbance. With regard to great crested newts, bats, dormice and red squirrel this is very unlikely, indeed NRW often highlight species are present at a site.

As we have seen recently with red squirrel on Anglesey, NRW had no population monitoring data: https://www.thenational.wales/news/19304998.expert-raps-nrw-felling-red-squirrel-habitat/ However this only appears to have been disclosed following local scrutiny. I worked on Anglesey 20 years ago and was very suprised to read this.

If we look at fisheries management, https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/terrestrial-and-freshwater-species-reports/index-river-monitoring-for-salmon-and-sea-trout-on-the-welsh-dee/?lang=en NRW are keen not to base population change on whether a river or riparian habitat still exists and

instead quantify population and change. NRW Forestry dept simply is not doing this and rely upon a generic 'habitat approach'.

The Minister mentions UK WAS and NRW Design planning and consultation as delivering conservation. Again this is an oblique habitat approach. Plans last a decade and in the interval between public consultation at draft stage, wildlife populations may have changed dramatically in the face of environmental factors e.g. pathogenic disease, inbreeding depression etc.

Failing to monitor means management is blind to spatial and temporal change in species abundance. This leads to a risk that felling may occur in precisely the worst location e.g. if wider animal populations had succumbed to disease and a residual was in one localised area.

I believe that NRW simply do not always undertake necessary survey to be able to assess felling effects on population viability. By not publishing information before felling occurs, the strength or weakness of the NRW understanding of mammal populations is not made clear. A public body should be taking the lead and publishing assessments would ensure this.

Warm Regards,

Eitem 4.5

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1434-4

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1228

**Teitl y ddeiseb:** Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021.

**Geiriad y ddeiseb:** O ganlyniad i'r pandemig, athrawon Cymru sydd yn cario'r baich am farcio, safoni a chymedroli asesiadau TGAU, UG ac A2 yn lle'r byrddau arholi. Mae hyn ar ben dysgu amserlen arferol a marcio gwaith dysgwyr eraill. Mae rhai athrawon ond wedi cael eu rhyddhau am un awr i gyflawni'r gwaith sydd yn anochel felly wedi gorfod cael ei gwblhau ar ôl oriau gwaith ac ar y penwythnos. Mae athrawon CA4 a 5 Cymru yn haeddu bonws am eu hymdrechion fel athrawon Yr Alban.

# 1. Dyfarnu cymwysterau yng Nghymru yn 2021.

Arweiniodd cyfarwyddyd gweinidogol ynghylch cymwysterau ym mis Tachwedd 2020 at ganslo arholiadau'r haf 2021. Sefydlwyd Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, yn cynnwys penaethiaid ysgolion ac arweinwyr colegau, i roi cyngor ar ddyfarnu graddau yn haf 2021.

Ar 20 Ionawr 2021, ar ôl cau ysgolion a cholegau ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, y byddai cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu dyfarnu i ddysgwyr drwy fodel **Gradd a Bennir gan Ganolfan**. Roedd hyn yn golygu y byddai graddau'n cael eu pennu gan athrawon a darlithwyr yn seiliedig ar eu hasesiad o waith dysgwyr.

Roedd ysgolion a cholegau (y canolfannau) yn gallu defnyddio ystod o dystiolaeth i bennu'r graddau i'w dyfarnu i'w dysgwyr, gan gynnwys asesiadau heb arholiad, ffug-arholiadau a gwaith dosbarth. Hefyd, cynigiodd CBAC set o gyn-bapurau arholiad wedi'u haddasu i ganiatáu i ysgolion barhau i asesu'r hyn a ddysgwyd o fewn eu cynlluniau addysgu, gan gynnig cefnogaeth ychwanegol i athrawon a dysgwyr. Roedd yn ofynnol i ganolfannau ddarparu sail resymegol a sylfaen dystiolaeth gadarn wrth ddyfarnu pob gradd a bennwyd ganddynt fel y gallent fod yn sicr eu bod wedi pennu'r radd gywir ar gyfer pob dysgwr a'u bod yn gallu cyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd yn achos cais am adolygiad neu apêl.

Ar gais gan CBAC, roedd yn ofynnol i ganolfannau roi prosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i hyrwyddo cysondeb y penderfyniadau ar raddau a wnaed ar draws y ganolfan (o fewn ac ar draws pynciau).

Hefyd, ysgolion a cholegau oedd cam cyntaf y broses apelio, felly roedd dysgwyr yn gallu gofyn i'w hysgol neu goleg adolygu'r radd dros dro a bennwyd gan y ganolfan os oeddent yn credu bod gwall wedi'i wneud wrth bennu'r radd honno. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl ar 9 Medi 2021 a oedd yn cyflwyno gwybodaeth gefndirol am arholiadau'r haf 2021 yn ogystal â'r canlyniadau.

# 2. Y sefyllfa yn yr Alban

Yn 2021, cafodd Awdurdod Cymwysterau'r Alban ei gomisiynu gan Lywodraeth yr Alban i lunio Model Ardystio Amgen ar gyfer asesiadau National 5, Higher ac Advanced Higher ar gyfer 2021. Mae'r rhain yn cyfateb yn fras i asesiadau TGAU a Safon Uwch. Mae'r model yn seiliedig ar farn athrawon, wedi'i hategu gan

adnoddau asesu a phroses sicrhau ansawdd. Yn 2020, cafodd Awdurdod Cymwysterau'r Alban gyfarwyddyd gan y Dirprwy Brif Weinidog y dylid dyfarnu graddau yn bennaf ar sail amcangyfrifon athrawon.

Ar 8 Rhagfyr 2020, i gydnabod y llwyth gwaith ychwanegol oherwydd yr asesiad cymwysterau cenedlaethol yn absenoldeb arholiadau yn 2021, cyhoeddodd John Swinney, cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, daliad untro eithriadol i athrawon a darlithwyr i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Model Ardystio Amgen a ddisodlodd yr arholiadau National 5, Higher ac Advanced Higher (sy'n cyfateb yn fras i TGAU a Safon Uwch) yn 2021.

# 3. Y sefyllfa yn Lloegr

Ar 6 Ionawr 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'r graddau a roddir yn yr haf 2021 i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a reoleiddir gan Ofqual wedi'u seilio ar asesiadau gan eu hathrawon. Yn debyg i'r sefyllfa yng Nghymru, roedd athrawon yn gallu defnyddio tystiolaeth drwy gydol y cwrs i bennu gradd y dysgwr dan sylw, gan gynnwys asesiadau heb arholiad, cyn-bapurau neu dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan.

Cyflwynwyd deiseb i Senedd y DU, sef 'Fund a £400 bonus for every teacher to mark externally-set exams', a oedd yn galw am dalu bonws i athrawon yn Lloegr, ac fe gaeodd ar 12 Tachwedd 2021. Llofnodwyd y ddeiseb hon gan 3,014 o bobl, sy'n is na'r trothwy o 10,000 ar gyfer ymateb gan Lywodraeth y DU.

# 4. Y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon

Ar 6 Ionawr 2021, cyhoeddodd Peter Weir ACD, y Gweinidog Addysg, y byddai holl arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol a  Safon Uwch (A2) Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesiadau (bwrdd arholi Gogledd Iwerddon) a drefnwyd ar gyfer yr haf 2021 yn cael eu canslo. Yn debyg i Gymru, roedd y dull o ddyfarnu graddau yn yr haf 2021 yn seiliedig ar raddau a bennwyd gan ganolfan.

Ym mis Gorffennaf 2021, adroddwyd nad oedd gan yr Adran Addysg unrhyw gynlluniau ar y pryd i wneud taliad untro i athrawon a fu'n rhan o'r gwaith o asesu graddau a bennwyd gan ganolfan y tu hwnt i'w cyflog arferol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1228
Ein cyf/Our ref JMEWL/11595/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd yn tynnu fy sylw at Ddeiseb P-06-1228, sef "Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021".

Rwy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion ac ymrwymiad parhaus yr holl athrawon a darlithwyr ledled Cymru wrth iddynt geisio canfod cydbwysedd rhwng sicrhau lles a chefnogi cynnydd dysgwyr. Roedd yr ymdrechon hyn ar y cyd yn allweddol ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflwyno graddau wedi'u pennu gan ganolfannau a sicrhau bod ein dysgwyr yn barod i symud ymlaen yn hyderus i'r camau nesaf yn eu haddysg, cyflogaeth neu eu hyfforddiant.

Fel y gwyddoch, mewn ymateb i heriau'r pandemig, daeth yn angenrheidiol canslo cyfres arholiadau haf 2021 a datblygu trefniadau asesu gwahanol ar gyfer dyfarnu cymwysterau. Datblygwyd y model graddau wedi'u pennu gan ganolfannau, wedi hynny, mewn partneriaeth â phenaethiaid ysgolion a cholegau trwy'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni.

Fel rhan o'r gwaith datblygu ac o gyflwyno'r graddau wedi'u pennu gan ganolfannau, rhoddwyd ystod eang o gymorth, gan gynnwys canllawiau manwl, darparu deunydd a thempledi enghreifftiol ar Hwb ac ar wefan ddiogel CBAC, dysgu proffesiynol drwy CBAC a'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol yn yr haf ar gyfer y broses graddau wedi'u pennu gan ganolfannau.

Ochr yn ochr â hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol er mwyn helpu ymarferwyr i ymwneud â dysgu proffesiynol ac i gefnogi cynnydd dysgwyr wrth greu pecyn pwrpasol ar gyfer cymorth pontio – roedd hyn yn cynnwys hyblygrwydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r broses graddau wedi'u pennu gan ganolfannau gan gynnwys gweinyddu'r broses apelio. Cymerwyd camau hefyd i greu capasiti pellach o fewn y system trwy ddileu rhai gofynion statudol er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ganolfannau, er enghraifft, cael gwared ar ddiwedd asesiadau cyfnod allweddol a'r gofynion cymedroli cysylltiedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I gydnabod rôl gynyddol  ysgolion a cholegau mewn cyflwyno graddau yr haf hwn, gostyngodd CBAC ei ffioedd 42% a ryddhaodd £8 miliwn arall i ysgolion a cholegau. Yn ogystal â hyn, gan gydnabod gwaith helaeth athrawon a darlithwyr, cyfrannodd Llywodraeth Cymru £1.6 miliwn yn ychwanegol i alluogi gostyngiad cyffredinol o 50% i ffioedd CBAC yn 2021. Rhyddhaodd hyn £9.6 miliwn yn ychwanegol ar gyfer ysgolion a cholegau, gyda hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid hwnnw i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau lleol yn y ffordd orau. Fy ngobaith oedd y byddai canolfannau'n gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn nid yn unig i gefnogi cynnydd dysgwyr ond hefyd i gefnogi lles staff a dysgwyr.

Rwy’n credu ei bod yn bwysig nodi bod y model graddau wedi’u pennu gan ganolfannau a’r prosesau apêl sydd gan Gymru, yn wahanol i’r  trefniadau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, wedi cael eu llunio’n benodol i alluogi athrawon a darlithwyr i wneud y rhan helaeth o’u gwaith yn ystod y tymor. Roedd hyn yn ymdrech fwriadol i gadw gwyliau’r haf, sydd yn gyfle pwysig i’r proffesiwn addysg gael hoe haeddiannol, cael cyfle i feddwl ac i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Rwy'n gobeithio bod yr hyn sy’n cael eu amlinellu uchod o ran cyflwyno graddau wedi’u pennu gan ganolfannau yn 2021 a'r gefnogaeth ehangach a roddwyd i'r proffesiwn addysg yn ddefnyddiol. Diolch am dynnu fy sylw ar y ddeiseb hon, a diolch am ymdrechion yr holl sector addysg i gefnogi lles dysgwyr, gan gynnwys pawb a fu’n rhan o gyflwyno’r graddau wedi’u bennu gan ganolfannau.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**P-05-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021, Gohebiaeth – Deisebwyr at y Pwyllgor, 14.12.21**

**DEISEB P-06-1228**
**Talu bonws athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021**

- I ymateb i eiriau Jeremy Miles AS Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr at Jack Sargeant AS, Cadeirydd Pwyllgor Deisebau ar Dachwedd 18fed 2021 bod "*canllawiau manwl, darparu deunydd a thempledi dysgu proffesiynol*'', roedd y ddarpariaeth yma yn sicr ar gael ond fy nadl i yw bu'n rhaid i athrawon a darlithwyr ddefnyddio eu hamser prin eu hunain tu fas i oriau gwaith i ymgyfarwyddo gyda'r holl ddogfennaeth. Nid oedd yr Hyfforddiant Mewn Swydd yn ddigonol o ran amser.

- Er bod asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol wedi eu dileu yn swyddogol mewn egwyddor yn ôl y Gweinidog, er mwyn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac adrodd i rieni ac Estyn (trefnwyd ymweliad gan Estyn i fy nghanolfan i yn yr haf) roedd dal disgwyl i athrawon asesu dysgwyr yn answyddogol, e.e CA3, ar yr un pryd â phennu graddau canolfan ar gyfer CA4 a 5. Roedd y pwysau gwaith yn erchyll.

- Yn ôl y Gweinidog  roedd y ''*model graddau a'r broses apêl yn galluogi athrawon i wneud y rhan helaeth o'r gwaith yn ystod y tymor*''. Bu hyn yn achosi llawer o bwysau ychwanegol mewn cyfnod byr gyda nifer fawr o gyfarfodydd ychwanegol ar ôl ysgol i gyd-safoni, cymedroli a thrafod graddau gyda'r adran, Rheolwr Llinell a'r Uwch Dîm Arwain, yn ddi-dâl.  Sylwch ar y geiriau '' *y rhan helaeth*'' sy'n golygu bod llawer o staff wedi gorfod gwneud rhywfaint o'r gwaith yma tu allan i'r tymor/yn eu gwyliau, eto yn ddi-dâl.  Pa broffesiwn arall sy'n cael eu llwytho gyda gwaith ychwanegol am ddim tâl ychwanegol?

- Sonnir y Gweinidog bod £9.6 miliwn wedi mynd at ganolfannau a bod ''*hyblygrwydd*' ganddynt ''*er mwyn helpu ymarferwyr i ymwneud â dysgu proffesiynol*'' a ''*cefnogi lles staff*''.  Ni chafodd yr arian yma ei rhaedru  yn ddigonol er mwyn cefnogi staff. Yn fy nghanolfan i defnyddiwyd y cyllid er mwyn rhyddhau staff i baratoi, marcio a safoni'r asesiadau. Roedd hyn yn broblem oherwydd prinder athrawon cyflenwi ac ond yn ychwanegu at faich gwaith gan fod staff yn gorfod paratoi a gadael gwaith pwrpasol addas ar gyfer eu dosbarthiadau.  Yn bersonol, er fy mod i fel Pennaeth Adran yn gyfrifol am TGAU, UG a Lefel A, yn ystod yr holl broses ges i ond un awr rhydd oddi ar fy amserlen i gwrdd ag aelod arall o'r adran er mwyn cyd-safoni.  Yn yr awr honno, ffoniodd y swyddfa i ofyn i fi fynd at un o'r dosbarthiadau gan fod yr athro cyflenwi wedi mynegi pryder bod y plant yn rhy swnllyd. Gwrthodais achos roedd yr awr brin yna mor hanfodol.

- Yn y bôn felly roedd athrawon uwchradd yn gwneud DWY swydd oleiaf - swydd yr athro a swydd yr arholwr/swyddog pwnc CBAC, yn ddi-dâl, yn ogystal â gofalu am les meddyliol dysgwyr yn ystod y pandemig a gorfod wynebu baich dysgu cyfunol yn y dosbarth ac arlein i ddisgyblion absennol. Cafwyd staff NHS fonws gan Lywodraeth Cymru am eu hymdrechion ac ymroddiad yn yr un cyfnod, gyda nifer o'r staff yma yn cuddio oddiwrth y cyhoedd, gan gynnwys nifer o feddygon teulu. Roedd holl weithwyr CBAC hefyd adref yn gweithio, lle maen nhw o hyd heddiw sy'n rhoi halen ar y briw.

- Gwerthfawrogwyd athrawon Yr Alban gan eu llywodraeth - oni ddylai Llywodraeth Cymru dalu yr un deyrnged i athrawon Cymru?

- Mae nifer o athrawon yn ddiweddar wedi cymryd rhan mewn arolwg annibynnol ar ran Cymwysterau Cymru am y cyfnod Pennu Graddau, gan fy nghynnwys i. Edrychaf ymlaen at ddarllen yr adroddiad beirniadol yma yn fuan.

- Rydyn ni fel athrawon ( a dysgwyr) yn anffodus yn wynebu yr un sefyllfa a phwysau eleni eto, mewn limbo llwyr, '*Dydy'r gwaith/asesiad yma ddim yn cyfri tuag at y gradd terfynol ond FE ALLAI*'. Mae pwysau y tymor yma wedi bod yn ofnadwy a mae lles athrawon yn dioddef. Rydw i wedi gweld athrawon profiadol pwyllog yn llefain dan y straen ac eisiau gadael eu swyddi. Byddai bonws fel un Yr Alban yn dangos arwydd o werthfawrogiad a pharch tuag at y proffesiwn eithriadol o weithgar yma.

Diolch yn fawr.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cynyddu'r cyllid ar gyfer Clinigau Hunaniaeth Rywedd yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1434

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1229

**Teitl y ddeiseb:** Cynyddu'r cyllid ar gyfer Clinigau Hunaniaeth Rywedd yng Nghymru.

**Geiriad y ddeiseb:** Ar hyn o bryd, dim ond un Clinig Hunaniaeth Rywedd (GIG) sydd yng Nghymru. Yn y GIG, rhaid aros rhwng 24 a 30 mis am yr apwyntiad cyntaf, heb sôn am weddill y driniaeth. Mae pethau'n anodd i bobl drawsryweddol yng Nghymru yn barod ac mae'r ffaith mai dim ond un GIG sydd yng Nghymru, a honno ag amseroedd aros afresymol o hir, yn hynod niweidiol, yn enwedig i bobl ifanc drawsryweddol. Mae angen cyllid ychwanegol.



www.senedd.cymru

# 1. Cefndir

Cyflwynwyd deiseb o'r enw **'cynyddu'r cyllid ar gyfer Clinigau Hunaniaeth Rywedd yng Nghymru'** i'r Pwyllgor Deisebau.

Ar hyn o bryd mae **un Clinig Hunaniaeth Rhywedd yng Nghymru** a'r amseroedd aros i rywun gael cynnig apwyntiad yw **24-30 mis**.

Cafodd Gwasanaeth Rhywedd Cymru ei greu yn 2019 ac mae'n cynnwys Tîm Rhywedd Cymru amlddisgyblaethol gweinyddol a chlinigol, Timau Rhywedd Lleol (LGT) a Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd i wella cefnogaeth mewn gofal sylfaenol.

Mae Tîm Rhywedd Cymru wedi'i leoli yn **Ysbyty Dewi Sant yng Nghaerdydd**. Mae Timau Rhywedd Lleol (LGT) wedi'u lleoli ym mhob bwrdd iechyd ac yn cynnwys meddyg sy'n rhagnodi therapïau hormonau, a therapydd lleferydd ac iaith.

Nid oes unrhyw ddata swyddogol ar nifer y bobl yng Nghymru sy'n ystyried bod ganddynt rywfaint o amrywiaeth rhywedd ac mae cryn amrywiaeth yn yr amcangyfrifon felly mae'n anodd asesu nifer yr achosion neu faint o bobl sydd angen y gwasanaeth hwn. Cydnabyddir y bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dilyn opsiynau triniaeth a chynnydd yn nifer yr achosion o angen a fynegir. Derbyniodd Clinig Caerdydd y 646 o atgyfeiriadau yn 2020-21, sef cynnydd o 26 y cant ers 2019-20.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Cyn creu **Gwasanaeth Rhywedd Cymru** roedd cleifion yng Nghymru â dysfforia rhywedd yn gorfod cael eu cyfeirio at Glinig Hunaniaeth Rhywedd Llundain er mwyn eu hasesu a'u trin. Mewn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau hunaniaeth rhywedd yng Nghymru, yn 2016 darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybr ar gyfer amrywiaeth rhywedd. Datblygwyd y gwasanaeth mewn cydweithrediad â Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth Rhywedd Cymru Gyfan (AWGIPG) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned drawsryweddol a defnyddwyr gwasanaeth.

Cafodd Umbrella Cymru ei gontractio i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu cymorth fel rhan o Wasanaeth Rhywedd Cymru. Mae'r Tîm Gwybodaeth a Chefnogaeth Rhywedd o Umbrella

Cymru yn darparu cymorth i unrhyw un ar y rhestr aros sy'n dymuno cael mynediad iddo ac yn darparu cymorth fel gwybodaeth am y llwybr, cysylltiadau â grwpiau, cymorth o ran newid enw a magu hyder.

Wrth ymateb i'r ddeiseb, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod y WHSSC yn 'gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ehangu Gwasanaeth Rhywedd Cymru'. Roedd yr ymateb yn nodi y 'darparwyd cyllid ychwanegol i Wasanaeth Rhywedd Cymru i gynyddu capasiti, lleihau amseroedd aros a chynyddu arbenigedd dros 3 blynedd' a bod y 'buddsoddiad hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu clinig ategol yng ngogledd Cymru',

Gan gydnabod bod angen mwy o waith, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y rhestr aros wedi lleihau o 6 mis a bod Gwasanaeth Rhywedd Cymru wedi:

> … llwyddo i recriwtio gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd ychwanegol, er enghraifft, i gynnal asesiadau llawfeddygol a fyddai wedi gofyn am atgyfeiriad o'r blaen i'r Clinig Hunaniaeth Rhywedd yn Llundain wedi'u cynnal gan Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Tavistock & Portman.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1229
Ein cyf/Our ref EM/13837/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebiadau

2 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau yn cyfeirio at Ddeiseb P-06-1229 Cynyddu'r cyllid ar gyfer Clinigau Hunaniaeth Rhywedd yng Nghymru gan Rosie Williams yn gofyn am fy marn ar y materion y mae'n eu codi.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) fel Comisiynydd Gwasanaeth Rhywedd Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ehangu Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Darparwyd cyllid ychwanegol i Wasanaeth Rhywedd Cymru i gynyddu capasiti, lleihau amseroedd aros a chynyddu arbenigedd dros 3 blynedd. Mae'r buddsoddiad hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu clinig ategol yng ngogledd Cymru.

Er fy mod yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud, yn 2020-21 lleihaodd Gwasanaeth Rhywedd Cymru y rhestr aros o 6 mis gyda chynlluniau ar waith i leihau hynny ymhellach dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi llwyddo i recriwtio gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd ychwanegol, er enghraifft, i gynnal asesiadau llawfeddygol a fyddai wedi gofyn am atgyfeiriad o'r blaen i'r Clinig Hunaniaeth Rhywedd yn Llundain wedi'u cynnal gan Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Tavistock &Portman.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd ichi ein bod yn gwneud cynnydd o ran gweithredu a datblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru yng Nghymru yn raddol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1229 Increase funding for Gender Identity Clinics in Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 10.12.21**

Thank you for your response. I am very satisfied with the response from Eluned, and trust that the Welsh Gender Service is in good hands, especially with the suggestion of a clinic in North Wales.

With all consideration, I still believe that there is a need for a dramatic increase in funding for the GIC. A waiting time of 2 years for a first appointment to support an extremely vulnerable community is very unsatisfying. I do however appreciate the comment from Eluned that the Welsh Gender Service aims to decrease waiting times further. I also appreciate that this is a relatively new service in Wales.

Thank you again for your consideration of my petition and I truly hope this makes a difference.

Many thanks,

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# **P-06-1230 Mae pob eiliad yn cyfrif:** Dylid gosod diffibriliwr ym mhob ysgol yng Nghymru i'r cyhoedd gael mynediad ato

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Ionawr 2022
Petitions Committee | 10 January 2022

**Cyfeirnod:** SR21/1434-6

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1230

**Teitl y ddeiseb**: Mae pob eiliad yn cyfrif: Dylid gosod diffibriliwr ym mhob ysgol yng Nghymru i'r cyhoedd gael mynediad ato

**Testun y ddeiseb**:

Mae llawer o bobl nad ydynt yn gwybod ble mae eu diffibriliwr agosaf.

Pe bai diffibriliwr wedi'i osod y tu allan i bob ysgol ar giât / ffens / wal allanol, yna byddai pawb yn gwybod, pe bai angen diffibriliwr arnynt, dim ond edrych am eu hysgol agosaf fyddai ei angen arnynt i ddod o hyd i'r offer hanfodol hwn.

Ni ddylid cyfyngu mynediad at ddyfeisiau mewn lleoliadau pan fydd y sefydliad ar agor yn unig. Mae mynediad cyhoeddus 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos yn hanfodol.

# 1. Cefndir

Mae Taflen ffeithiau Cymru a gyhoeddwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon (Gorffennaf 2021) yn tynnu sylw at y canlynol:

Mae ataliad ar y galon, pan fo’r galon yn stopio pwmpio gwaed o amgylch y corff, yn argyfwng meddygol critigol. Oni chaiff ei drin ar unwaith, mae'n arwain at farwolaeth ymhen munudau.

- Mae tua 2,800 achos o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yng Nghymru bob blwyddyn.
- Yng Nghymru, dim ond un ym mhob ugain sy’n byw ar ôl cael ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty.
- Mae’r siawns y bydd y claf yn byw yn lleihau hyd at 10 y cant am bob munud na fydd dulliau adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a diffibriliwr yn cael eu defnyddio.
- Gall CPR fwy na dyblu'r siawns y bydd y claf yn byw mewn rhai achosion (ffibriliad fentriglaidd).
- Amcangyfrifir bod diffibrilwyr sydd ar gael i’r cyhoedd (PADs) yn cael eu defnyddio mewn llai na 10 y cant o achosion o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty.

# 2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun ar gyfer ataliad ar y galon y tu allan i’r ysbyty. Yn hwn, nodir bod codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hollbwysig i sicrhau eu bod yn adnabod arwyddion ataliad y galon ac yn ymyrryd mewn da bryd. Os bydd rhywun gerllaw yn dechrau CPR, nodir bod dwywaith neu bedair gwaith mwy o siawns y bydd y claf yn byw ac, os defnyddir diffibriliwr o fewn 3-5 munud ar ôl i’r claf gwympo, gall y siawns y bydd yn byw wella’n sylweddol.

Mae'r cynllun yn cynnwys y canlyniadau a’r camau gweithredu allweddol a ganlyn:

- Mae diffibrilwyr hygyrch ar gael i’r cyhoedd.
- Mae’r cyhoedd yn gwybod ei bod yn hawdd defnyddio diffibrilwyr ac na fyddant yn gallu achosi niwed.
- Cydweithio i sicrhau bod yr holl ddiffibrilwyr yn cael eu mapio i sicrhau eu bod yn fwy hygyrch a bod mwy ohonynt ar gael i’w defnyddio.

- Sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau clir ar waith fel bod diffibrilwyr ar gael i'w defnyddio bob amser

Ar 15 Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad am gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun ar gyfer ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty. Mae'n nodi'r canlynol:

> Yn y gorffennol, y rhai sy'n prynu diffibrilwyr sydd wedi penderfynu ar eu lleoliad. Mae Rhwydwaith Cardiaidd Cymru, ar y cyd â Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, wedi mapio lleoliadau'r holl ddiffibrilwyr sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â data am leoliad pob ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty, yn dangos bod angen meddwl yn fwy strategol wrth brynu diffibrilwyr newydd.

Mae'r datganiad yn tynnu sylw at y canlynol:

- Mae rhaglen Arbed Bywyd Cymru (sy'n dwyn sefydliadau ledled Cymru ynghyd i helpu i ddatblygu sgiliau CPR y cyhoedd a'u dysgu sut i ddefnyddio diffibrilwyr) yn recriwtio rheolwr clinigol ar gyfer y rhaglen ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty, i ddatblygu fframwaith i oruchwylio lleoliad diffibrilwyr a sut y cânt eu rheoli ac mae hefyd yn recriwtio saith cydlynydd cymunedol Achub Bywydau Cymru.
- Mae cymunedau a sefydliadau sydd â diffibrilwyr eisoes yn cael eu hannog i'w cofrestru ar The Circuit (dyma'r rhwydwaith diffibriliwr cenedlaethol sy'n rhoi darlun cenedlaethol o leoliad diffibriliwyr).
- Tra bod mwy na 5,420 o ddiffibrilwyr yng Nghymru wedi'u cofrestru, mae ychydig llai na 50% o'r rhain wedi'u cofrestru gyda gwarcheidwaid i sicrhau bod y batris a'r padiau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd.
- Cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o £500,000 ar 15 Medi 2021 i brynu bron 500 o ddiffibrilwyr ychwanegol. Bydd grwpiau a sefydliadau cymunedol yn gallu gwneud cais i gael dyfais gan Achub Bywyd Cymru.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Deisebau hefyd yn tynnu sylw at waith Achub Bywyd Cymru, ac yn tanlinellu'r angen i gofrestu diffibrilwyr. Mae'n tynnu sylw at offeryn mapio ar-lein y gellir ei defnyddio i chwilio am leoliad diffibrilwyr yn ôl cod post neu dref / dinas.

Mewn perthynas ag ysgolion yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn dweud:

> Er y gallai fod yn briodol i ddiffibrilwyr gael eu lleoli y tu allan i adeiladau ysgolion, efallai nad hwn fyddai'r opsiwn gorau bob amser a chredaf ei bod yn bwysicach bod yr offer hwn yn cael ei leoli mewn ardal a nodwyd yn lleol fel yr un fwyaf hygyrch i'r cyhoedd.

# 3. Camau a gymerwyd gan Senedd Cymru

Ar 15 Medi 2021, cynhaliodd y Ceidwadwyr Cymreig ddadl ynghylch mynediad at ddiffibrilwyr

Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddodd y Pedwerydd Cynulliad adroddiad ar ei drafodaeth ar ddeiseb P-04-471: Deddfwriaeth Gymreig orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus

Mae Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn hefyd ar gael.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1230
Ein cyf/Our ref JMEWL/11596/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 5 Tachwedd ac am y cyfle i roi fy sylwadau cychwynnol ar ddeiseb i osod diffibriliwr ym mhob ysgol yng Nghymru at ddefnydd y cyhoedd.

Rwy'n cydnabod pa mor effeithiol y gall diffibrilwyr fod a'r effaith y gallant ei chael ar siawns rhywun sy'n dioddef ataliad y galon o oroesi. Gall CPR (adfywio cardio-pwlmonaidd) cynnar a defnyddio diffibriliwr yn brydlon gynyddu siawns unigolyn o oroesi ataliad y galon. Mae Llywodraeth Cymru am weld cyflenwad digonol o ddiffibrilwyr ledled y wlad, yn ogystal â mwy o bobl sy'n teimlo'n hyderus i'w defnyddio ac i wneud CPR. I gyflawni hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein Cynllun ar gyfer Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty, a ffurfiodd Bartneriaeth Achub Bywyd Cymru. Rydym wedi darparu cyllid i ymgyrch Achub Bywyd Cymru, sy'n gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hyfforddiant CPR a'r defnydd o ddiffibrilwyr drwy'r ymgyrch 'Cyffwrdd â Bywyd'. Mae rhan o'r gwaith hwn yn ymwneud â rheoli diffibrilwyr heddiw ac yn y dyfodol; oherwydd ar hyn o bryd mae diffibrilwyr yn cael eu prynu gan amrywiol sefydliadau, gan gynnwys elusennau a grwpiau cymunedol.

Er y gallai fod yn briodol i ddiffibrilwyr gael eu lleoli y tu allan i adeiladau ysgolion, efallai nad dyma'r opsiwn gorau bob tro, ac rwy'n credu ei bod yn bwysicach i'r offer gael ei leoli mewn ardal a nodwyd yn lleol fel yr un fwyaf hygyrch i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae mapio diffibrilwyr yn bwysig iawn i sicrhau bod y rhai sydd eu hangen yn gallu dod o hyd iddynt yn gyflym. Dyma pam rwy'n croesawu camau i annog cymunedau a sefydliadau sydd eisoes â diffibrilwyr i'w cofrestru ar The Circuit ac rwy'n falch o weld bod dros 5,420 wedi'u cofrestru. Mae ychydig llai na 50 y cant o'r diffibrilwyr hyn wedi'u cofrestru â gwarcheidwaid sy'n sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio, gan gynnal gwiriadau rheolaidd ar fatris a phadiau. Mae teclyn mapio ar-lein ar gael i'r cyhoedd yma: GIG 111 Cymru - Gwasanaethau yn agos atoch chi (wales.nhs.uk)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, rwy’n falch o nodi bod £500,000 arall yn cael ei neilltuo eleni ar gyfer prynu mwy o ddiffibrilwyr ledled Cymru ar gyfer sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer gwneud cais am un o’r diffibrilwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru bellach ar agor ac mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://llyw.cymru/gwnewch-gais-am-ddiffibriliwr-mynediad-cyhoeddus-cymunedol

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati)**
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cardiff Animal Rights, ar ôl casglu 1,253 o lofnodion ar-lein a 505 ar bapur, sef cyfanswm o 2,008 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog i Lywodraeth Cymru wella'r mesurau amddiffyn i gramenogion a gwahardd yr arfer creulon o ferwi cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati yn fyw.

Mae sŵolegwyr wedi darganfod bod cimychiaid a chramenogion eraill, yn wahanol i fodau dynol, yn METHU â mynd i 'sioc', felly mae taflu nhw i botaid o ddŵr BERWEDIG yn peri iddynt ddioddef yn hwy. Pan fydd anifeiliaid eraill, gan gynnwys bodau dynol, yn dioddef poen eithafol, mae'r system nerfol yn ymdopi drwy stopio gweithio. Mae gwyddonwyr wedi darganfod ei bod yn cymryd hyd at 45 eiliad i gimychiaid a chrancod farw pan gânt eu taflu i botaid o ddŵr BERWEDIG (sef rhywbeth a fyddai'n hollol annerbyniol ar gyfer anifail ag asgwrn cefn fel buwch neu fochyn). I roi persbectif i'r mater, os cânt eu datgymalu, gall y system nerfol barhau i weithio am hyd at awr.

Nod Deddf Lles Anifeiliaid yw amddiffyn anifeiliaid, gan ddeall bod creaduriaid ymdeimladol yn gallu teimlo poen, ac mae dyletswydd foesol arnom i BEIDIO â pheri dioddefaint. O dan y Ddeddf mae'n drosedd peri dioddefaint diangen i unrhyw anifail, o ran eu cadw ac ar adeg eu lladd. Mae'n golygu bod modd erlyn pobl neu sefydliadau sy'n esgeuluso neu gam-drin anifeiliaid 'gwarchodedig'. Mae 'anifeiliaid a ffermir', pysgod ac ymlusgiaid oll yn cael eu diogelu dan y Ddeddf hon. Ond nid felly y mae yn achos infertebratau megis crancod, cimychiaid, cimychiaid afon a chorgimychiaid.

At hynny, daethpwyd o hyd i gramenogion byw ar werth, yn aros eu tynged ar badelli iâ, wedi'u pacio a'u rhwymo'n dynn mewn tanciau neu blastig i'r cwsmer eu lladd gartref. Yn y Swistir, mae berwi cimwch yn fyw yn cael ei ystyried yn weithred o greulondeb wrth anifail. Erbyn hyn mae'n rhaid i bobl y Swistir stynio neu ladd anifeiliaid cyn eu berwi, ac ni cheir cadw cimychiaid yn fyw ar iâ.

Dylid ehangu Deddf Lles Anifeiliaid 2006 i gynnwys cramenogion, gan gynnwys cimychiaid, crancod, corgimychiaid, cimychiaid afon ac ati.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

**P-06-1200 Dylid gwneud rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon ac yn weithred o greulondeb yng Nghymru, ni waeth a oes gan y ceffylau gysgod neu beidio**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon, ar ôl casglu cyfanswm o 4,637 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ar hyn o bryd, nid yw rhwymo ceffylau yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae pawb siŵr o fod wedi gweld ceffyl hyfryd yn rhwym wrth gadwyn fer yn ymyl y ffordd, heb gysgod rhag y tywydd garw.

Ymddengys nad oes gan yr RSPCA bŵer i wneud dim am y peth! Pe bai ci wedi cael ei glymu yn ymyl ffordd brysur, byddai dicter. Mae'r ddau anifail yn bwysig!

Rhaid pasio deddfau i atal y creulondeb ofnadwy hwn i greaduriaid mor sensitif! Nid oes gan yr anifeiliaid hyn unrhyw ansawdd bywyd; mae'n sgandal llwyr.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Creodd yr elusen les HorseWorld ymgyrch #BreaktheChain gyda'r gobaith o newid y gyfraith. Er i'r arfer hwn gael ei alw'n greulon a pheryglus, mae'n aros yn gyfreithiol.

Ewch i'r wefan www.BreakTheChain.org.uk am ragor o wybodaeth.

Byddwn mor falch o Gymru pe bae'n arwain y ffordd i atal yr arfer ofnadwy hwn o'r diwedd. Mae'r RSPCA hefyd yn gwrthwynebu'r arfer, gan ddweud ei fod yn peryglu lles anifeiliaid mewn sawl ffordd.

Mae cod ymarfer Defra er lles ceffylau a chod ymarfer Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw rhwymo ceffylau yn ddull addas ar gyfer rheoli'r anifeiliaid. Rhaid gofyn pam, felly, nad yw'n anghyfreithlon?

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

Pets change lives
**We change theirs**

Jack Sargeant MS
Chair
Petitions Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Tuesday 30th November 2021

Dear Jack,

**Petition P-06-1200 Make horse tethering, with or without shelter, illegal and an act of cruelty in Wales**

Blue Cross has concerns over the suitability of tethering being used as a long-term management strategy for horses. We welcome the Welsh Government's Horse Welfare Code of Practice which provides guidance to horse owners and enforcers on what unsafe and poor tethering looks like and the impact it can have on a horse's health and welfare.

The Welsh Government Code of Practice for the Welfare of Horses defines tethering and notes that it is "not a suitable method of management of an animal, as it restricts that animal's freedom to exercise itself, to find food and water, or to escape from attacks by dogs or the extremes of hot and cold weather. It also risks an animal becoming entangled, or injuring itself, on tethering equipment." The Code notes that tethering may be useful for short-term animal management but only in certain circumstances. Appendix 1 of the Code provides more information on tethering for horse owners to follow.

Blue Cross would welcome proactive measures educating owners who are likely to tether their horses alongside better enforcement. If there are concerns for the welfare of a tethered horse Section 9 of the Animal Welfare Act 2006 can be used to intervene. Section 9 stipulates the five welfare needs any owner must provide for animals in their care and long-term tethering conflicts with the welfare needs of a horse.

As with many animal welfare issues, Blue Cross is concerned about the enforcement of the existing laws in place to protect the welfare of horses. Blue Cross would argue that increasing local authority resources and knowledge to apply the Animal Welfare Act 2006 and Control of Horses (Wales) Act 2014 would have positive impact on the welfare of horses along with other animal welfare matters. Too often we see that local authorities do not have the knowledge or resources to identify issues and take action on animal welfare

**Blue Cross**
Shilton Road, Burford
Oxfordshire, OX18 4PF
Tel: 0300 777 1897
Fax: 0300 777 1601
info@bluecross.org.uk
bluecross.org.uk

Chief Executive: Chris Burghes
Blue Cross is a company limited by guarantee (Registered in England No. 363197) which has its registered office at Shilton Road, Burford, Oxfordshire OX18 4PF
Registered as a charity in England and Wales (224392) and in Scotland (SC040154)

Pets change lives
We change theirs

concerns, horse tethering is one of these. This matter needs to be resolved in order for existing regulations to be effective.

If you have any further questions, please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely,

Becky Thwaites
Head of Public Affairs
Blue Cross
bluecross@deryn.co.uk

**About**

- Blue Cross is a charity that has been helping sick, injured, abandoned and homeless pets since 1897. We help thousands of pets in need every month, providing veterinary care, expert behaviour help, and find them loving homes, as well as advice on education for current or future owners and pet bereavement support. Pets change lives. We change theirs.

**Blue Cross**
Shilton Road, Burford
Oxfordshire, OX18 4PF
Tel: 0300 777 1897
Fax: 0300 777 1601
info@bluecross.org.uk
bluecross.org.uk

Chief Executive: Chris Burghes

Blue Cross is a company limited by guarantee (Registered in England No. 363197) which has its registered office at Shilton Road, Burford, Oxfordshire OX18 4PF

Registered as a charity in England and Wales (224392) and in Scotland (SC040154)

Cymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid
Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions Committee
Welsh Parliament / Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff
CF99 1NA

3 December, 2021

Dear Jack Sargeant MS,

Thank you for your letter to RSPCA Cymru concerning petition P-06-1200, entitled *'Make horse tethering, with or without shelter, illegal and an act of cruelty in Wales'*.

RSPCA Cymru has long highlighted issues with the practice of securing a horse, pony or donkey via a tether. The welfare problems associated with tethering are complex; shelter such as trees can cause animals to become entangled but open ground offers no protection from inclement weather, the sun or flies. A horse's natural behaviour of walking long distances to graze cannot be reproduced, they cannot escape attack by dogs and people, and they are not able to enjoy the natural company of other horses. As such, the RSPCA opposes tethering as we do not believe it to be a viable, long-term way to keep a horse.

However, while we acknowledge the noble aims of this petition; realistically, an outright ban on tethering is unlikely to be practical. There can be instances where an owner needs to tether a horse for very short periods of time, for example, and for this very short period can provide the rigorous monitoring and checks required, as well as access to food, water, shelter and grazing. Additionally, inappropriate tethering that does not meet the five welfare needs of the horse is already illegal as horse owners already have a duty of care to meet the five welfare needs of their horses at all times under the Animal Welfare Act (2006).

An outright ban could also displace problems related to equine welfare to other situations which are potentially damaging for welfare, including increased instances of fly-grazing or even abandonment. A ban could also result in horse owners leaving their animals free and unattended in inappropriate situations such as next to roads, leading to road traffic problems.

RSPCA Cymru continues to campaign to see a reduction in tethering. This could be achieved through a strengthening of the wording in the Welsh Government's Code of Practice around tethering, or an exploration as to whether a maximum time period on the tether should be introduced alongside existing animal welfare laws; or other legislative or regulatory solutions. We would urge the Welsh Government to acknowledge the strength of feeling on this issue, as highlighted by the response to this petition (P-06-1200) from the public, and to consider acting accordingly.

RSPCA Cymru
6 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Business Park
Cardiff
CF15 7AB

**Cruelty Line**
**0300 1234 999**

Elusen a gofrestrwyd yng
Nghymru a Lloegr
Charity registered in
England & Wales
Rhif/No 219099

**www.rspca.cymru**

Noddwr Ei Mawrhydi
Y Frenhines
Patron HM The Queen

However, as outlined in your letter, issues do exist in Wales with regards to practical enforcement - both in relation to inappropriate tethering, as this is already illegal under the Animal Welfare Act, and through the enforcement of other equine-related legislation, such as the Control of Horses (Wales) Act, which provides further powers for councils in Wales to tackle abandoned and fly-grazed equines. A timely review of the Equine Identification (Wales) Regulations 2019 will also be key - ensuring the law is helping to identify inappropriately tethered equines and, crucially, linking them to the people responsible for their care; aiding enforcement.

Local authorities are being tasked with enforcing an increasing number of animal welfare laws - with the UK's Kept Animals Bill, and future Welsh Government plans, set to expand this further. It is vital therefore the Welsh Government considers the financial situation for local authorities, and the importance of consistent enforcement - including in relation to equines, and the capacity of horse wardens.

Within its recently-published Animal Welfare Plan, the Welsh Government references the three-year training programme it has funded, to enhance its support for the training of local authority enforcement officers in relation to legislation on dog breeding establishments - and there is some suggestion this could be expanded to incorporate other areas related to animal regulation. This could include laws relevant to equines; and enforcement of legislation such as the Animal Welfare Act on tethering; the Control of Horses (Wales) Act with regards to abandoned and fly-grazed equines; and the Equine Identification (Wales) Regulations 2019 with regards to identification. While hot spots for some of these activities do exist in Wales - and the RSPCA routinely responds to calls regarding equine welfare in these areas, and liaises with the Council regularly - consistent enforcement across Wales is still key. However, beyond training, financial capacity is also an issue - which is why we continue to call for the Welsh Government to undertake a wholesale review concerning the ability of Local Authorities and other agencies to enforce legislation that impacts the welfare of animals.

If we can provide any further information on this, or other matters pertaining to animal welfare, please don't hesitate to get in touch. We look forward to working closely with you and the Senedd's Petitions Committee in the coming years.

Yours sincerely,



**Chris O'Brien**
**Senior Public Affairs and Media Manager**

**P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tesni Morgan, ar ôl casglu cyfanswm o 1,462 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ar 27 Awst 2020, lladdodd ein Bronwen annwyl ei hun ar ôl brwydr hir gyda'i hiechyd meddwl.

Rydym ni, fel teulu, wir yn credu y gallai hynny fod wedi cael ei atal. Yn ystod 6 mis olaf ei bywyd, dirywiodd iechyd meddwl Bronwen yn sylweddol. Gwnaeth sawl ymdrech i ladd ei hun, gan roi ei hun mewn sefyllfaoedd peryglus yn rheolaidd. Roedd Bronwen mewn anobaith—nid oedd ei chynllun gofal yn addas at y diben ac roedd hi a'r teulu'n erfyn ar i rywbeth newid.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Gwnaethom ni, a Bronwen hithau, erfyn ar i rywun wrando arnom. Cawsom ein hanwybyddu.

Rydym yn ymdrechu am benderfyniadau ar y cyd ac adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal a thriniaeth iechyd meddwl. Rydym hefyd yn galw am gyfle i'r berthynas agosaf gyfrannu i'r adolygiadau hynny. Mae canllawiau presennol NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y claf.

Mae NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn bwysig er mwyn:

trefnu bod dewisiadau gwahanol ar gael i'r claf ac i'r rhain gael eu trafod yn agored.

trefnu i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ar y cyd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol a'r claf.

helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i addasu'r gofal neu'r driniaeth yn ôl anghenion yr unigolyn.

Nid felly y bu hi yn achos Bronwen. Mae penderfyniadau ar y cyd yn HANFODOL i gleifion gael y gofal gorau sydd wedi'i addasu yn ôl eu hanghenion unigol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

26 Tachwedd 2021

Annwyl Jack

Deiseb P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Medi ynghylch y ddeiseb uchod, pan wnaethoch ofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried ymgymryd â gwaith ar gymorth iechyd meddwl yn ystod y Chweched Senedd.

Fel aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byddwch yn ymwybodol:

- Bod iechyd meddwl, gan gynnwys mynediad at wasanaethau cymorth, yn un o'r meysydd blaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg o'n hymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Senedd hon.
- Yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, rydym wedi nodi iechyd meddwl fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cwmpas a dull posibl ymchwiliad cychwynnol i iechyd meddwl yn ein cyfarfod ar 2 Rhagfyr.

Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd â'r Pwyllgor Deisebau ar faterion trawsbynciol sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yn ystod y Senedd hon.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English

**P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Adam Johannes, ar ôl casglu cyfanswm o 980 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau a ganlyn ar unwaith

- Diwygio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim fel bod unrhyw blentyn mewn unrhyw deulu sy'n cael y Credyd Cynhwysol neu gyfwerth yn gymwys.

- Ymestyn yn barhaol yr hawl i deuluoedd sy'n methu cael arian cyhoeddus gael prydau ysgol am ddim

- Cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol fabanod

Fel y cam cyntaf tuag at ddarparu prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl o oedran ysgol yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae gan bob disgybl o oedran ysgol yng Nghymru yr hawl i brydau ysgol maethlon am ddim.

Yn ôl y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, nid yw dros hanner y plant sy'n byw islaw ffin tlodi y DU yng Nghymru (dros 70,000) yn gymwys ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw hyn yn dderbyniol.

Mae prydau ysgol am ddim yn helpu teuluoedd mewn trafferth, yn lleihau stigma ac anghydraddoldeb, ac yn gwella iechyd a llesiant plant.

Rydym yn credu y byddai buddion prydau ysgol am ddim i bob plentyn o oedran ysgol yng Nghymru yn cynnwys

- Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb
- Helpu cyllidebau a bywyd cartref teuluoedd
- Rhoi hwb i ddysgu a chyrhaeddiad addysgol
- Helpu disgyblion i ganolbwyntio'n well drwy gydol y dydd
- Creu cyfeillgarwch yn y neuadd fwyd drwy rannu'r profiad o fwyta pryd
- Gwella anghydraddoldebau iechyd ymysg plant
- Lleihau gordewdra
- Cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim drwy leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Estyn yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd** |
| **DYDDIAD** | **17 Rhagfyr 2021** |
| **GAN** | **Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** |

Dros yr haf, rhannais yr wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau am y gwaith sy'n mynd rhagddo i adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Penderfynwyd gwneud y gwaith hwn yng nghyd-destun ein hymrwymiad clir i barhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r pandemig, ac i estyn yr hawl i'w cael cyhyd ag y bydd ein hadnoddau'n caniatáu hynny.

Ers hynny, ac o ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith adolygu a wnaed, rydym wedi gweithio gyda Phlaid Cymru i ystyried amrywiaeth o bolisïau sydd o ddiddordeb i'r ddwy blaid. Mae'r Cytundeb Cydweithio sy'n deillio o hyn yn nodi canlyniadau'r ymdrechion hyn a'r penderfyniad i gydweithio i'w cyflawni. Wrth wraidd y dull gweithredu hwn mae ymrwymiad i estyn yr hawl i gael prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd yn ystod oes y cytundeb.

Mae'r uchelgais hwn yn deillio o'n dealltwriaeth bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol a, thrwy gymryd y cam hwn, bydd 196,000 yn rhagor o blant yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru. Felly, mae ein hymrwymiad yn cynnig ymyriad a allai weddnewid y sefyllfa, yn ogystal â bod yn gam arall pwysig tuag at wireddu ein huchelgais gyffredin o fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau na fydd yr un plentyn yn mynd heb fwyd.

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y manteision ehangach sydd ynghlwm wrth brydau ysgol am ddim, gan gynnwys tynnu sylw at fwyta'n iach ym mhob rhan o fywyd yr ysgol, sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth ehangach o fwydydd, gwella sgiliau cymdeithasol yn ystod amseroedd bwyd, yn ogystal â gwelliannau o ran ymddygiad a chyrhaeddiad. Yn fwy cyffredinol, wrth weithredu ar yr ymrwymiad hwn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o fwydydd o Gymru ar gael mewn ysgolion. Bydd hyn yn byrhau cadwyni cyflenwi ac yn lleihau allyriadau carbon, yn ogystal â chefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd lleol, gan gryfhau'r economi sylfaenol.

Wrth baratoi i gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym eisoes wedi dechrau'r gwaith pwysig o gydweithio i ddatblygu dull o roi'r rhaglen ar waith ar y cyd â'n partneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd a sefydliadau gwirfoddol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i ddod i ddeall yn well gapasiti'r gweithlu yn ogystal â'r ceginau a'r ystafelloedd bwyta sy'n hollbwysig i'r seilwaith ar gyfer prydau ysgol yng Nghymru.

Mae hefyd angen gwneud gwaith i fodloni ein huchelgais gyffredin o sicrhau Strategaeth Bwyd Cymunedol, yn ogystal â chymryd y camau sydd eu hangen i wellau prosesau caffael bwyd, gan feithrin gwerth cymdeithasol, deall ansawdd cynnyrch lleol, a rhoi terfyn ar yr arfer o ystyried y gost isaf yn gyntaf.

Rydym yn awyddus iawn i wneud cynnydd cyn gynted â phosibl. Mae'r trafodaethau cynnar a gynhaliwyd â'n partneriaid yn awgrymu y bydd angen inni dreulio'r hyn sy'n weddill o flwyddyn academaidd 2021/22 yn rhoi'r trefniadau cyflawni ar waith ac yn sicrhau capasiti. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn parhau i'w hwynebu wrth weithredu yn ystod y pandemig.

Fel y nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio, caiff yr ymrwymiad ar y cyd hwn ei roi ar waith dros oes y cytundeb. Felly, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull gweithredu fesul cam o roi'r rhaglen ar waith er mwyn sicrhau y bydd gan ysgolion y capasiti sydd ei angen i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion a fydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac a fydd yn manteisio ar hynny. Er bod angen gwneud gwaith o hyd i ddeall yn well sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, ein nod yw dechrau'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ym mis Medi 2022, gan gynnig prydau ysgol am ddim i ddysgwyr ieuengaf ein hysgolion cynradd bryd hynny. Wedyn byddwn yn awyddus i barhau'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen ym mis Medi 2023, i sicrhau y bydd modd i bob dysgwr ym mhob ysgol gynradd fanteisio ar brydau ysgol am ddim. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i gynllunio a pharatoi'r seilwaith sydd ei angen i wneud yn siŵr y bydd y rhaglen yn llwyddo. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gynnar yn 2022, a fydd yn nodi ein cynlluniau manwl ar gyfer rhoi'r ymrwymiad hwn ar waith.

Yn olaf, drwy gyflawni'r ymrwymiad hwn, bydd pob dysgwr oedran ysgol gynradd yn cael cynnig prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn golygu na fydd modd inni ddefnyddio data ar bwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ddangos anfantais ymhlith plant y grŵp oedran hwn mwyach. Gwyddom fod y dangosydd hwn wedi cael ei ddefnyddio i lywio polisïau lleol a chenedlaethol, ac i bennu sut y caiff cyllid ei ddyrannu, ers blynyddoedd lawer. Felly mae angen inni weithio'n agos gyda phartneriaid, ac ym mhob rhan o'r llywodraeth, i ystyried effaith y newid hwn, a sicrhau na fyddwn yn amharu ar brosesau dyrannu cyllid a ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Er bod y gwaith hwn yn bwysig iawn, ni fydd yn effeithio ar y broses o roi'r rhaglen ar waith ar ôl inni fynd i'r afael â'r materion ymarferol a nodwyd uchod.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu ddiwygiedig, sydd bellach yn cynnwys y Cytundeb Cydweithio, yn glir - byddwn yn sicrhau tegwch i bawb ac yn dileu anghydraddoldeb ym

mhob rhan o'r gymdeithas. Bydd Cymru yn wlad lle na fydd neb yn cael ei adael ar ôl nac yn cael ei ddal yn ôl. Drwy gyflawni ein hymrwymiad cyffredin i sicrhau prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, rydym yn cymryd camau pwysig tuag at wireddu'r weledigaeth hon.

**P-06-1205 Buddsoddwch mewn amddiffynfeydd llifogydd ar y Tywi yng Nghaerfyrddin gan gynnwys ardal y Cei**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan John Aitken, ar ôl casglu cyfanswm o 740 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae llifogydd ar y Tywi nifer o weithiau mewn blwyddyn, gan effeithio ar y busnesau sydd ar ei glannau. Mae angen gwneud rhywbeth fel mater o frys, mae'r cyhoedd yn gweld digon o bwyllgorau, ond dim gweithredu.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: ME/ub CX21-245
Eich cyf/Your ref:

Maes Newydd / Maes Newydd
Llandarsi / Llandarcy
Castell-Nedd Port Talbot / Neath Port Talbot
SA10 6JQ / SA10 6JQ

Ebost/Email:
[redacted]

Ffôn/Phone:
[redacted]

Jack Sargent MS
Chair of the Petitions Committee
Senedd Cymru Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

By email: petitions@senedd.wales

29 November 2021

Dear Jack Sargeant MS,

Thank you for your correspondence dated 19 November 2021 regarding *Petition P-06-1205 Invest in flood defences on the Towy in Carmarthen including the Quayside area.* Clare Pillman has asked me to respond on her behalf as Head of Operations for South West Wales.

The short answer to your question is that Natural Resources Wales is not currently considering a flood scheme for the Towy in Carmarthen.

This is in part because parts of the town already benefit from flood schemes, whilst other parts, such as The Quay are not a high priority compared to other areas at risk from flooding in Wales.

As you and the committee members will already be aware, Natural Resources Wales, as a Wales wide body, has to prioritise how it uses the Grant in Aid and resources received from the Welsh Government in accordance with the Welsh Government's National Strategy for Flood and Coastal Erosion Risk Management in Wales and also their Grant Memorandum Flood & Coastal Erosion. Both of these documents identify that in carrying out its flood risk management functions, Risk Management Authorities, including Natural Resources Wales, must prioritise investment on a risk basis, with homes being considered a higher priority than businesses.

This is, I believe, the essence of the letter that the Minister for Climate Change sent to the Petitions Committee in which the Minister wrote :

**"***The Welsh Government does not stipulate which communities our Risk Management Authorities should focus its attention on, but expect them to prioritise areas which primarily reduce risk to homes. Businesses may also benefit where homes are also being protected, or where the Risk Management Authority is able to justify a scheme which only protects businesses.*

*All schemes which are submitted to the Welsh Government for funding support are then prioritised according to risk, utilising information from Natural Resource Wales' Communities*


*at Risk Register, historic flood events, the number and type of property at risk, costs and wider benefits.*

*This prioritised approach to flood risk management is set out within our National Strategy for Flooding and Coastal Erosion. It also aligns with our National Planning Policy, which can allow less vulnerable development within areas of increased flood risk".*

The other difficulty in progressing a flood scheme for The Quay, even if it was a high enough priority, is that previous studies of flood schemes at the location have identified that, in accordance with government project appraisal guidance, a scheme will not meet the economic business criteria necessary to allow public funds to be invested.

We will continue to be mindful of the area and should policy relating to prioritisation or other circumstances change that may influence a potential scheme there, we will review accordingly.

Yours sincerely



**Martyn Evans**
**Head of Operations South West Wales**
**Pennaeth Gweithrediadau De Orllewin Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

17 Rhagfyr 2021

**Cais am ddadl ar ddeiseb P-05-949: Arbed yr Hen Ysgol Ganolradd i Ferched y Bontfaen rhag ei dymchwel**

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Tachwedd 2021 yn gofyn am ddadl ar y ddeiseb uchod. Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais yn ein cyfarfod ar 30 Tachwedd.

Yng ngoleuni'r amser sydd wedi mynd heibio ers creu'r ddeiseb, cytunwyd i ysgrifennu’n ôl atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am statws presennol yr adeilad, a'r cais cynllunio y cyfeirir ato yn nhestun y ddeiseb. O ystyried yr amrywiaeth o bynciau sy’n cystadlu am amser y Cyfarfod Llawn, rydym am sicrhau bod pwnc y ddeiseb yn parhau i fod yn fater byw cyn i ni ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi amser ar gyfer cynnal dadl.

Yn gywir

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**